# Llais Ogwan

Papur Bro Dyffryn Ogwen

**Rhifyn 525 · Tachwedd 2021 · 50c**


# O Ddyffryn Ogwen i Efrog Newydd: Pobol y Chwarel




Fel yr oedd y Llais ar fin mynd i'r wasg, daeth y newyddion gwych i law, o'r Unol Daleithiau; fod y rhaglen ddogfen, *Pobol y Chwarel*, wedi derbyn y wobr efydd yng Ngŵyl Ffilmiau a Theledu Efrog Newydd. Datganwyd yr ennillwyr mewn noson wobrwyo rhithiol ar nos Fawrth, y 12fed o Hydref.

Darlledwyd y rhaglen gyntaf o'r gyfres 'pry ar y wal' ar S4C ym mis Mawrth 2020, a oedd yn dathlu pobl y pentref trwy ddilyn amryw o drigolion y Dyffryn wrth eu bywydau dyddiol.

Mae gwobrau'r ŵyl yn anrhydeddu cynnwys o bob hyd a ffurf o dros 50 o wledydd, a gynhyrchwyd gan wahanol unigolion a chwmnïau megis *y BBC, Netflix* a *Sky* i enwi rhai. Cynhyrwchyd y rhaglen ar y cyd rhwng Nia Parry a Deiniol Morris, sydd yn enedigol o Ddyffryn Ogwen, a'i chyfarwyddo gan Rhodri Davies ar ran Boom Cymru.

Gan gynnwys pob agwedd o'r diwydiannau ffilm a theledu, mae'r categorïau'n adlewyrchu tueddiadau byd-eang cyfoes gyda'r bwriad o annog y genhedlaeth nesaf o storïwyr. Enillodd y gyfres y wobr Efydd yn nghategori'r raglenni ddogfen: 'Portreadau Cymunedol', yn un o 11 o ymgeision.

Dywedodd Nia: "Y peth mwya' arbennig am weithio ar y gyfres oedd y croeso gawson ni a'r fraint o gael adrodd straeon cymeriadau Bethesda. Cymuned glos Gymreig, cymuned sydd wedi'u cysylltu drwy eu perthynas â'r chwarel a'r llechi a'r tirwedd o'u cwmpas. Mae 'na straeon sy'n dangos cyfeillgarwch, entrepreneuriaeth, gobaith, hwyl, ac egni a gwydnwch pobl.

Nhw sydd wedi ennill y wobr hon - eu stori nhw ydy hi ac fe fuon ni fel tîm bychan iawn yn freintiedig i gael ei hadrodd hi."

Llongyfarchiadau gwresog i bawb a fu'n rhan o'r rhaglen.


**Ffair Llan**

tudalen 18




## Panel Golygyddol

**Ieuan Wyn**
(Ffôn 600297)
ieuanwyn01@gmail.com
**Lowri Roberts**
(Ffôn 07815 093955)
l.roberts11@btinternet.com
**Neville Hughes**
(Ffôn 600853)
nev_hughes@btinternet.com
**Dewi A Morgan**
(Ffôn 602440)
dewimorgan@live.co.uk
**Trystan Pritchard**
(Ffôn 07402 373444)
trystanrp1@gmail.com
**Walter a Menai Williams**
(Ffôn 601167)
waltermenai@yahoo.co.uk
**Rhodri Llŷr Evans**
(Ffôn 07713 865452)
Rhodri.llyr.evans@gmail.com
**Owain Evans**
(Ffôn 07588 636259)
owain.evans1@gmail.com
**Carwyn Meredydd**
(Ffôn 07867 536102)
carwynian@hotmail.com
**Rhys Llwyd**
(Ffôn 01248 601606)
rmll42@live.co.uk

## Swyddogion

**CADEIRYDD:**
**Dewi A Morgan**, Park Villa,
Lôn Newydd Coetmor,
Bethesda, Gwynedd
LL57 3DT (Ffôn 602440)
dewimorgan@live.co.uk

**TREFNYDD HYSBYSEBION:**
**Neville Hughes**, 14 Pant,
Bethesda LL57 3PA (Ffôn 600853)
nev_hughes@btinternet.com

**YSGRIFENNYDD:**
**Gareth Llwyd**, Talgarnedd,
3 Sgwâr Buddug, Bethesda
LL57 3AH (Ffôn 601415)
garethllwyd197@btinternet.com

**TRYSORYDD:**
**Godfrey Northam**, 4 Llwyn
Bedw, Rachub, Llanllechid
LL57 3EZ (Ffôn 600872)
godfreydnortham@hotmail.co.uk

**Y LLAIS DRWY'R POST:**
**Owen G Jones**, 1 Erw Las,
Bethesda, Gwynedd
LL57 3NN (Ffôn 600184)
post@llaisogwan.com

## Golygyddion

Golygwyd rhifyn y mis hwn gan
**Owain Evans**.

Y golygydd ym mis **Rhagfyr** fydd
**Trystan Pritchard,**
27 Allt Penybryn, Bethesda, LL57 3DB.
07402 373444
E-bost: trystanrp1@gmail.com

Pob deunydd i law erbyn **dydd Sadwrn, 27 Tachwedd** os gwelwch yn dda.
**BYDD Y RHIFYN HWN YN CAEL EI ARGRAFFU**
Casglu a dosbarthu
**Nos Iau, 16 Rhagfyr,**
yng Nghanolfan Cefnfaes am 6.45

**DALIER SYLW:** NID OES GWARANT Y BYDD UNRHYW DDEUNYDD FYDD YN CYRRAEDD AR ÔL Y DYDDIAD CAU YN CAEL EI GYNNWYS.

## Clwb Cyfeillion Llais Ogwan

**Gwobrau Tachwedd**

| | | |
|---|---|---|
| £30.00 | (107) | Elsie Evans, Garneddwen, Bethesda. |
| £20.00 | (156) | Sandra Williams, Gerlan. |
| £10.00 | (141) | Iona Wyn Jones, Llandygai. |
| £5.00 | (10) | Neville Hughes, Ffordd Pant, Bethesda. |

(Os am ymuno, cysylltwch â **Neville Hughes** – 600853)

**www.llaisogwan.com**
**Trydar: @Llais_Ogwan**

## Rhoddion i'r Llais

| | |
|---|---|
| **£20.00** | Tair rhodd di-enw, Llandygai. |
| **£8.00** | Di-enw, Tregarth. |
| **£50.00** | Cyngor Cymuned Llanddeiniolen. |
| **£5.00** | Nia Llwyd, Talybont. |
| **£10.00** | Doris Shaw, Bangor. |
| **£4.00** | Di-enw, Bethesda. |
| **£10.00** | I gofio am Mr. Gwilym Llewelyn Williams, Maes Caradog. |
| **£10.00** | Emyr a Heulwen Roberts, Ffordd Bangor, Bethesda. |
| **£30.00** | Dafydd Roberts, Cae'r Wern, Tregarth. |

**Diolch yn fawr**

## Llythyr

Annwyl Olygydd a ddarllennwyr,
**FFRINDIAU DEMENTIA**
Hoffwn gyflwyno fy hun ichi. Melanie ydw i a fi yw Rheolwraig Prosiect Dementia Gogledd Cymru.

Un o'r blaenoriaethau sydd gennyf ydi cyfarfod y rhai hynnu ohonoch sydd yn unai gofalu am rywun â Dementia, neu unigolyn sy'n byw â Dementia.

Fe fuasai'n braf clywed gennych er mwyn I mi ddysgu pa wasanaethau allwn wella neu pa wasanaethau fuasech yn hoffi ei weld yn eich hardal chi.

Gallwch gysylltu â mi unai drwy ebost melanie.sillett@sirddinbych.gov.uk neu trwy fy ffonio ar 07768 006414.

Edrychaf ymlaen at glywed gennych yn fuan a gyda'n gilydd gallwn sicrhau y bydd Cymru'n genedl dementia gyfeillgar.

Yn gywir,
Melanie Sillett.

Sefydlwyd 1969
m.hughes a'i fab
CONTRACTWYR TOI
Bryn Myfyr, Allt Pen y Bryn, Bethesda
☎ 600633
☎ (symudol) 07702 583765
*Arbenigo mewn gwaith ffelt a pitsio.*
*Hefyd toeau llechi a gwaith yswiriant.*
*Gadewch i ni gynnig pris rhesymol am waith diguro.*

## Llais Ogwan ar CD

Gellir cael copi trwy gysylltu â **Gwyn** yn swyddfa'r deillion, Bangor (01248 353604). Os gwyddoch am rywun sy'n cael trafferth â'i olwg, ac a hoffai dderbyn copi o'r Llais ar CD bob mis, cysylltwch ag un o'r canlynol:
Gareth Llwyd – 601415
Neville Hughes – 600853

## Archebu trwy'r post

**Gwledydd Prydain** – £22
**Ewrop** – £30
**Gweddill y Byd** – £40
Owen G. Jones, 1 Erw Las, Bethesda, Gwynedd LL57 3NN
post@llaisogwan.com
01248 600184

Cynhelir Gwasanaeth Nadolig Cymunedol
Yng Nghapel Jerusalem
Nos Sul, Rhagfyr 19eg, am 7 o'r gloch

Yng nghwmni:
Côr Y Penrhyn
Côr Ysgol Dyffryn Ogwen
Parti'r Urdd
Perfformiadau gan unigolion
Gwneir casgliad tuag at achos da
Croeso cynnes i bawb!

# Clwb Cerdded Eryri Cymdeithas Deillion Gogledd Cymru

Ar y 13eg o fis Hydref, daeth clwb Cerdded Cymdeithas Deillion Gogledd Cymru i ymweld â Dyffryn Ogwen pan drefnwyd taith gerdded o Llyn Ogwen i lawr Nant Ffrancon ar hyd yr hen lôn a'r lôn las i Bethesda. Mae'r Clwb Cerdded hwn wedi ail-gychwyn cynnal teithiau cerdded yn fisol ar ôl y cyfnod clo ar gyfer pobl gyda phroblemau golwg sy'n mwynhau mynd allan i gerdded a chymdeithasu. Bydd criw o wirfoddolwyr yn gweithredu fel tywyswyr er mwyn arwain pobl ddall a rhannol-ddall ar y teithiau cerdded hyn a ceir tipyn o hwyl a thynnu coes.


Aled Hughes yn cyfweld Mark Eckley

Daeth criw da at eu gilydd ar gyfer y daith hon i lawr Nant Ffrancon ac 'roedd pawb wedi mwynhau'r daith er gwaethaf y tywydd a gafwyd ar y diwrnod. Dywedodd un o'r trefnwyr, Mark Roberts o Glan Ffrydlas, ei fod ef a swyddogion o'r Gymdeithas wedi mynd ati rhai blynyddoedd yn ôl i drefnu clwb cerdded er mwyn rhoi'r cyfle i bobl gyda phroblemau golwg i fynd allan gyda chymorth tywyswyr i fwynhau'r awyr agored, byd natur a'r cyfle i gymdeithasu gyda ffrindiau. Mae Mark, sydd wedi colli ei olwg ers pum-mlynedd-ar-hugain bellach, yn dweud bod y clwb hwn wedi bod yn fendith i bobl sydd yn methu mynd allan yn annibynnol ac efallai'n gaeth i'r cartref.

Ymunodd Aled Hughes o Radio Cymru gyda'r criw ar y daith gerdded a bu'n cyfweld Mark a Dafydd Eckley, Uwch Swyddog Adfer o'r Gymdeithas, am y teithiau cerdded a'r gwasanaethau a ddarperir gan Gymdeithas Deillion Gogledd Cymru i helpu pobl i ymdopi ac addasu gyda phroblemau golwg er mwyn adennill hunan-hyder a sgiliau i arwain bywyd mor annibynnol a phosibl. Cafodd y sgwrs ei chlywed ar raglan Aled Hughes ar Radio Cymru ar 19.10.21 (https://www.bbc.co.uk/sounds/play/p09yp0sb).

Os oes gan unrhyw un ddiddordeb mewn unai arwain taith neu wirfoddoli fel tywysydd ar y teithiau cerdded hyn neu'n adnabod rhywun gyda phroblemau golwg a fyddai'n elwa o'r profiad o fwynhau'r awyr agored a chyfarfod ffrindiau newydd, yna cysylltwch gyda Bethan o Gymdeithas Deillion Gogledd Cymru (01248 353604).

**Gareth Llwyd**

Ogwen
Adferiad Corfforol
Physical Rehabilitation
Proffesiynol, diogel a chyfrinachol
LLEDDFU POEN Cefn, cyhyrau, esgyrn, cymalau, a thensiwn cur pen
Eli Lichtenstein
07743373895 Ogwen.Physical.Rehab@gmail.com

SIOP OGWEN
yn cynnig gwasanaeth
CLIC A CHASGLU
Llawer o Nwyddau Newydd
gan Grefftwyr Newydd wedi cyrraedd y siop
Hefyd
Llu o gardiau cyfarch ar gyfer pob achlysur.
Cysylltwch â'r siop ar y ffôn 07394 905881
neu E-bost siop@ogwen.org i drafod beth sydd ar gael ac i wneud trefniadau casglu a thalu
CEFNOGWCH WASANAETH LLEOL

Llais Ogwan
I hysbysebu yn Llais Ogwan, Neville Hughes 600853

JAMIAU CARTRA'
(Amrywiaeth ar gael)
Cysylltwch â gwefan CADWYN OGWEN
neu Neville ac Angharad (ffoniwch nhw ar 600853)
Elw at Elusennau

# Newyddion y Dyffryn Gwyrdd

## Y Cyfaill Cymunedol

Mae'r digwyddiadau megis Prynhawniau Coffi a drefnir gan dîm y Dyffryn Gwyrdd yn parhau'i fynd o nerth i nerth. Y diweddaraf yn y gyfres o ddigwyddiadau oedd sesiwn ar fwyta'n iach a siopa'n lleol. Dechreuwyd gyda'r arbenigwraig, ar ddeiet, Angharad Griffiths o Gilfodan. Cafwyd sesiwn arbennig o ddifyr gyda Angharad yn esbonio beth ddylid ei fwyta wrth inni fynd yn hŷn. Yn ogystal cafwyd cyfle'i flasu mymryn o ddanteithion iach a blasus wrth i'r prynhawn fynd rhagddo.

Yr ail gyflwynydd oedd Liws Enston o'r Bartneriaeth ddaru son am gynnyrch arbennig Cadwyn Ogwen. Mae sawl un o ddarllenwyr y Llais yn gwsmeriaid ffyddlon iawn a hynny'n cefnogi cynhyrchwyr y Dyffryn. Gallwch archebu nwyddau drwy alw'n siop Cadwyn ar y Stryd Fawr, ac fe welir Liws yn aml o gwmpas y lle'n y fan drydan yn danfon cynnyrch lleol heb unrhyw lygredd! Diolch yn fawr i'r ddwy am brynhawn difyr iawn.



## Pantri Pesda

Elfen arall o waith y Dyffryn Gwyrdd sy'n brysur iawn yw'n gwaith ar rannu bwyd. Sefydlwyd y gwasanaeth hwn mewn ymateb i'r Pandemig ac mae wedi bod yn llwyddianus iawn. Er mwyn gwell adlewyrchu'r hyn a wneir o Ganolfan Cefnfaes a'r ffaith ei fod ar gael i bawb yn ein cymuned 'rydym wedi newid yr enw'i 'Pantri Pesda'. Mae dwy elfen benodol i'n gwaith, sef rhannu bwydydd 'dros ben' o archfarchnadoedd bob nos Sul (5:30pm) a nos Fawrth (7:00pm) a'r parseli bwyd i unigolion a theuluoedd mewn angen. Mae'r sesiynau rhannu bwyd ar agor i bawb gyda'r pwyslais ar osgoi anfon bwyd da i'w dirlenwi. Mae'n rhyfeddol be rydym yn dderbyn, popeth o fara i flodau, cig a llysiau. Bwriad yr ail elfen yw darparu pecynnau bwyd i unigolion a theuluoedd mewn angen ac fe ellir derbyn y gwasanaeth hwn unwaith y mis drwy drefniant ymlaen llaw.

Diolch yn fawr am yr holl roddion tuag at y parseli bwyd. Derbyniwyd cyfraniadau hael iawn yn ddiweddar gan Afancod Bethesda, Plant Ysgol Sul Jerwsalem, Ysgol Llanllechid ac Eglwys St Ann's a St Fair, Tan y Bwlch.
Am fwy o fanylion am 'Pantri Pesda' cysylltwch â harri@ogwen.org neu 07394906036.

## Afancod Bethesda



## Carnedd y Car Trydan



Ydych chi'n cofio Carwen y car trydan fu'n byw wrth y Llyfrgell y llynedd? Bellach, rydym wedi cael car newydd yn ei lle sef MG5 trydan ar y cyd a chlwb ceir Co-Wheels. Mae'r car, sef Carnedd, am fod yn y Dyffryn am dair blynedd a'n gobaith yw y bydd trigolion yn ei defnyddio, efallai yn lle'r ail gar, neu i arbrofi gyrru car trydan. Mae ffi aelodaeth i ymuno â'r clwb ac wedyn gallwch hurio fesul awr neu diwrnod. Os nad ydych wedi cofrestru eisoes, ewch i https://www.co-wheels.org.uk/ neu cysylltwch â ni am fwy o wybodaeth.

## Diwrnod yr afal

Er gwaethaf y tywydd gwlyb, daeth pobl Dyffryn Ogwen ynghyd unwaith eto eleni i wasgu eu hafalau a gwneud sudd gartref blasus yn Llys Dafydd. Dyma'r pedwerydd tro i ni gynnal y digwyddiad hwn yn yr hydref, ac mae bob tro wedi bod yn boblogaidd iawn.

Er bod rhai blodau wedi eu hanafu mewn rhew hwyr, a choed eraill heb ffrwytho yn iawn am resymau eraill, daeth tua 20 o bobl i ddefnyddio'r wasanaeth a'r offer gwasgu ffrwythau. Roedd un o'r gweisg ar fenthyg gan Ffermydd a Gerddi Cymdeithasol, a'r llall gan gwmni lleol Perllanau Afallon. At ei gilydd, mae'n debyg y gwasgon ni 50 litr o sudd!

Bydd Dyffryn Gwyrdd yn plannu coed ffrwythau eto y gaeaf yma ar y safleoedd lle planwyd coed y llynedd, a hefyd gobeithio yn un neu ddau safle newydd. Os hoffech chi helpu plannu, neu ddiddordeb gennych chi i fod yn rhan o grŵp perllan newydd fydd yn cynnal a chadw'r perllanau un neu ddwywaith y flwyddyn, yn trefnu'r diwrnod gwasgu, ac mewn blynyddoedd i ddod yn gofalu am y ffrwythau, cysylltwch â ni! judith@ogwen.org





*Am rhagor o fanylion am waith y Dyffryn Gwyrdd, cysylltwch â ni; menna@ogwen.org, 07394906036*

# Enwau Dyffryn Ogwen



*(Diolch i Dafydd Fôn Williams am ei ganiatâd i ddefnyddio cynnwys allan o'r wefan 'Enwau Dyffryn Ogwen'. Mae o'n gweithio ar y wefan ac yn cynnwys mwy o'i waith ymchwil i enwau'r fro wrth fynd ymlaen, felly bydd ychwanegiadau a newidiadau i rai o'r nodiadau fel mae'r gwaith yn datblygu.)*

**Cae Clochydd**

Heddiw mae Cae Clochydd yn rhes o dri o dai yn y Carneddi. Cawsant yr enw oherwydd iddynt gael eu hadeiladu ar gae o'r un enw. Rhyw ganrif a hanner yw oed y tai, ond nid felly'r cae, sydd ganrifoedd yn hŷn. Un o gaeau fferm hynafol Cilfodan oedd Cae Clochydd; ceir cyfeiriad ato, ynghyd â chaeau eraill y fferm, yn 1629, pan mae un o feibion Cochwillan, sydd wedi sefydlu yn y Faenol, yn gwerthu rhent y cae, ynghyd â nifer o gaeau eraill. Sonnir amdano, wedyn, yn 1660, yn 1691, yn 1733/3, ac yn 1846. Mae'n amlwg ei fod yn gae llawer iawn mwy nag yw heddiw, yn ymestyn o'r afon Ffrydlas, uwchben ffordd Bont Uchaf, a draw hyd at Pencarneddi, oherwydd, yn 1846, rhoddir ar rent blynyddol o £6:5:0 i William Evans Bont Uchaf, gan ei berchennog, Owen Ellis, Cefnfaes.

'***a parcel of land called Cae'r Clochydd, bounded on the south east by the river Ffrydlas, and, on the west, by the road leading from Pencarneddi to Bont Uchaf'.***

sy'n dangos fod y cae yn un sylweddol, yn ymestyn o'i leoliad presennol yr holl ffordd at afon Ffrydlas ger Allt Picyn (Glanrafon). Ar y cae hwn yr adeiladwyd, ymhlith eraill, dai Bontuchaf, Cilfodan, a Ffordd Carneddi, yn ogystal â thri thŷ Cae Clochydd

O safbwynt yr enw, roedd y Clochydd yn swyddog eglwysig wedi ei urddo i wasanaeth yr eglwys. Roedd yn swyddog plwyf, yn cynorthwyo'r offeiriad yn y gwasanaeth ac yn gofalu am yr adeilad a'i ddodrefn ac yn gyfrifol hefyd am ganu'r clychau a thorri beddau. Yn aml, byddai clochydd yn mynd yn ei flaen i fod yn offeiriad.

Mae'r enw Cae Clochydd yn awgrymu mai rhyw glochydd penodol, neu pob clochydd, yn rhinwedd ei swydd fel clochydd, (swyddog eglwys Llanllechid, mae'n fyw na thebyg), oedd piau'r cae ar un adeg, (cyn 1629, mae'n amlwg).

Er y gallai hynny fod yn wir, y tebygrwydd mwyaf yw fod rhent y cae, neu gyfran o'r rhent, yn mynd i gynnal y clochydd lleol.

Gellid, hefyd, fod y degwm ( = un rhan o ddeg o gynnyrch tir oedd yn mynd i gynnal yr eglwys yn flynyddol) yn mynd at gynhaliaeth y clochydd.

Rhag i hyn fod yn rhy gymhleth, dyma'r ystyron posibl i Cae Clochydd (o ddyddiau cyn 1629, yn amlwg)

- *Cae oedd yn eiddo i rhyw glochydd penodol ar un adeg*
- *Cae oedd yn eiddo i pwy bynnag oedd yn dal swydd clochydd (eglwys Llanllechid, yn fwyaf tebygol)*
- *Cae y mae ei rent yn mynd i gynnal y clochydd*
- *Cae y mae ei ddegwm yn mynd i gynnal y clochydd*







# AVRO Lincoln MKII B2 RF511

## gan André Lomozik

Yn rhifyn Medi o'r Llais yn ei erthygl 'Pwy Sy'n Cofio Ddoe?' 'roedd Dr J. Elwyn Hughes yn pori trwy ddyddiaduron David David Evans, Glanrafon, Gerlan. Cofnodion o'r 1950au oedd dan sylw yn y rhifyn yma, ac 'roedd un ar gyfer Dydd Llun, Ionawr 13, 1950 wedi dal fy sylw, sef 'Awyren yn dod i lawr ar ochr Bryniau Melynion; 6 yn colli eu bywydau'. Ar ddiwedd yr adroddiad mae J.E.H yn dweud fod yna ychydig o ddirgelwch ynglŷn a'r dyddiad roedd DDE wedi nodi yn ei ddyddiadur, gan fod JEH wedi darganfod ar wefan y BBC, adroddiad dan y pennawd 'Bethesda bomber crash remembered 70 years on'. Yn yr adroddiad yma mae'r dyddiad yn cael ei roi fel Mawrth 15fed 1950. Gofyn oedd J.E.H a oedd unrhyw un o ddarllenwyr y Llais yn gallu cadarnhau pa un o'r ddau ddyddiad oedd yn gywir. Yn ôl yr hyn 'rwyf wedi ddarganfod mae'n debygol mai'r dyddiad a roddwyd gan y BBC sydd yn iawn.

Roedd nifer o awyrennau wedi cychwyn ar ymarfer hedfan nos, 14/03/1950. Rhai o RAF Hemswell, a rhai o RAF Scampton, yn ei plith AVRO Lincoln MKII B2 RF511 a oedd yn hedfan allan o RAF Scampton. Yn ystod yr ymarfer yma fe drodd y tywydd yn ddrwg ac fe ailgyfeiriwyd tair o'r awyrennau gan oruchwyliwr ardal Preston, i hedfan i faes awyr y Llu Awyr yn y Fali. Glaniodd dwy ohonynt yn ddiogel am 3 o'r gloch y bore, (15/03/1950), ond tua'r un amser derbyniodd maes awyr y Fali alwad ffôn gan orsaf heddlu Bethesda, yn dweud fod un awyren wedi gwrthdaro yn erbyn un o'r mynyddoedd uwchlaw Bethesda. Pan gyrhaeddodd tîm achub y fan lle 'roedd yr awyren wedi taro yn erbyn y mynydd, cafwyd hyd i gyrff 4 aelod o'r criw yn syth, a chafwyd hyd i'r ddau arall ymhen ychydig amser ar ôl i'r tân gael ei ddiffodd. Dyma enwau'r criw: John Talbot Lovell Shore MC. AFC. (Squadron Leader Pilot) 33 oed; Cyril Alfred Lindsey, (Flighty Lieutenant Navigator) 26 oed; Ronald Albert Forsdyke, DFC (Engineer II Flight Engineer) 29 oed; Harold Henry Charman, (Signaller III Radio Operator) 22 oed; Godfrey Leo Cundy, (Gunner II Air Gunner) 26 oed; Robert Henry Hutchings Wood, (Gunner I Air Gunner) 27 oed;. Mae dau aelod o'r criw wedi eu claddu ym mynwent Caergybi, sef Ronald A. Forsdyke, a Harold H. Charman.

# Rachub a Llanllechid

**Emlyn Williams**, Pont Llan, Llanllechid, Bangor, LL57 3LE
(07887624459) henbarc13@gmail.com

**Capel Carmel**
Rydym ni'n cydymdeimlo gyda Mrs. Delia Davies, Tan y Gaer, Carneddi yn ei phrofedigaeth o golli ei mab, Mr. Ken Davies. Mae ein cydymdeimlad ni hefyd gyda'r plant sef Neil, Rachel, a Medi, a'r teulu i gyd yn eu profedigaeth.

Ers Hydref y 10fed y mae oedfaon y capel wedi cael eu cynnal yn y capel am 5 y.h. bob yn ail wythnos. Hefyd, cyfarfu'r Ysgol Sul ddwywaith yn yr awyr agored ac unwaith yn y capel efo'r rhieni ar gyfer oedfa Diolchgarwch, diolch i weithgarwch Mrs. Helen Williams.

Ar y Dydd Sul olaf yn Mis Medi daeth Huw Pritchard (gynt o Bron Arfon) a'i wraig Angharad, o Gaerdydd i Gapel Carmel i fedyddio eu plentyn Siwan Esyllt. Da oedd gweld y teulu efo'i gilydd.

Cydymdeimlwn a theulu Mrs. Rita Harris , Bryn Bella (mynychwraig ffyddlon oedfaon y capel) a bu farw yn ddiweddar ar ôl llawdriniaeth canser a strôc.

**Penblwydd Arbennig**
Dymuniadau gorau am Benblwydd Arbennig yn 80 oed yn ystod mis Hydref i Ann Jones, Bron Arfon, oddi wrth ei hannwyl ŵr Selwyn, y plant Jona, Dion a Heledd a'r holl deulu. Penblwydd Hapus iawn i ti.

**Ffair Llanllechid**
Roedd yn dda gweld Ffair Llanllechid yn ôl flwyddyn yma ar ôl toriad Covid llynedd. Roedd pryder os gallai fynd yn ei blaen o feddwl y glaw a ddaeth drwy'r bore, ond bu llawenydd mawr i blant bach a mawr yr ardal pan beidiodd y glaw ac ymddangosodd yr haul i achub y diwrnod.



**Torri Coeden**
Trist oedd gweld coeden Onnen hynafol enfawr yn cael ei dymchwel ar dir Red Lion Llanllechid yn ddiweddar. Fel efallai y bydd llawer ohonoch yn ymwybodol mae clefyd coed Ynn (*Hymenoscyphus fraxineus*) yn taro coed ynn ar draws y wlad. Fel y gwelwch o lun y bonion roedd y clefyd wedi bwyta mewn i'r goeden a'i gwneud yn beryglus, fel nad oedd gan Mr. a Mrs. Bevan ddewis ond ei dymchel. Roedd Sam y coediwr yn amcangyfrif iddo fod rhwng dau a thri cant o flynyddoedd oed.







**Trafnidiaeth Gyhoeddus**
Cafwyd trafferth am fod un o fysiau'r bore i Fangor wedi'i hatal oherwydd prinder gyrwyr, gan achosi'r bws nesaf i fod yn llawn h.y. dim lle i deithwyr o Rachub a Thregarth – gyda'r un trafferth ar y ffordd yn ôl yn y prynhawn. Bu oedi i godi'r lloches bws newydd yn Sgwâr Rachub oherwydd trafferth efo'r cadwyn cyflenwi.

**Yr Ysgol Sul**
"Eiddo'r Arglwydd y ddaear a'i llawnder, y byd a'r rhai sy'n byw ynddo" oedd ein thema ni yn ystod y ddau fis diwethaf.

Uchod gwelwn lun o'r plant yn cael "Picnic Anifeiliaid" yn y cae chwarae, cyn cynnal gwasanaeth byr a chanu'r gân "Yr eliffant mawr a'r cangarŵ, i mewn i'r arch â nhw!".

Gosodwyd chwe chafn blodau yn y lawnt o flaen Maes Bleddyn. Gobeithio y byddant yn cael eu parchu.

Synnwyd nifer o drigolion yr ardal wrth iddynt weld maint a lleoliad yr arwydd ILDIWCH newydd yn Sgwâr Rachub.

**Dymuniadau Gorau**
Dymunwn yn dda i Gwenan Williams a Godfrey Northam, Llwyn Bedw wedi llawdriniaeth yn yr ysbyty.

Croesawn Wendy a Ron Jones (Ffordd Llanllechid) adref wedi iddynt ymweld â'i wyres newydd Eira, a'i theulu yn Canada.

# Llandygái

**Iona Wyn Jones**, Dyma Fo,
16 Pentref, Llandygái, Bangor
LL57 4HU (01248 354280)

**Eglwys Sant Tegai, Llandygai**

**Dymuniadau gorau**

Parhawn i gofio ein cleifion yn ein gweddiau, sef Liz Jones, Pat Jones, Sylvia Humphreys, Helen Gill a John Bagnall. Cofion gorau hefyd i'n dau saer maen arbenigol, William a Jed, o gwmni *William Taylor Stonemasons*. Mae y ddau yn derbyn triniaeth ers Mai 2021.

**Cofio'r Aberth**

Mewn seremoni syml a phreifat gosodwyd torch pabi coch y Lleng Brydeinig wrth borth Eglwys Llandegai. Bu cyfle i gofio aberth yr holl blwyfolion a gollodd eu bywydau oherwydd rhyfel. Gosodwyd torch arall ar y gofeb o flaen y brif fynedfa i Barc Penrhyn ar sgwâr y pentref. Diolch i John Bagnall ac Edmond Douglas Pennant am y trefniadau. Diolch hefyd i glochyddion St. Tegai a Martin Brown eu capten am dalu eu teyrnged hwythau drwy ganu caniad chwarter dros y fro.

**Diolch i Farchnad Ogwen**

Hoffem ddiolch i drefnwyr Farchnad Ogwen am eu cynnig o stondin codi arian ar Dachwedd 13eg. Manteisiwyd ar y cyfle i redeg Tombola a Raffl ac hefyd cynigwyd ddewis o lyfrau i brynu. Diolch i aelodau'r gynulleidfa a helpodd i redeg ein gweithgaredd cyhoeddus cyntaf ers y Clo.

**Apêl Nadolig 2021**

Ar ôl i'r gynulleidfa fechan a'n cefnogwyr godi £65,000 dros 10 mlynedd ar gyfer Cam 1 o'r Atgyweirio, 'rydym eisoes wedi troi ein hymdrechion at godi £175,400 ar gyfer gwaith brys Cam 2. Mae'r eglwys yn hanesyddol bwysig, dros 800 mlynedd oed gyda statws Gradd 2*. A oes gennych gysylltiad â'r eglwys, ei hysgol neu ei phentref? A fuasech yn ystyried rhoi anrheg Nadolig i Eglwys St. Tegai i sicrhau ein dyfodol?

Caiff unrhyw gyfraniad neu rodd i'r Apêl ei neilltuo i'r Gronfa Atgyweirio a gwaith adeiladu 2022. Derbynnir rhoddion yn ddiolchgar mewn arian parod (drwy law) ym mlwch postio unrhyw swyddog eglwys, mewn siec drwy'r post (yn daladwy i *Eglwys Llandegai Church*) neu drosglwyddiad banc (Cyfrif yr Eglwys: 30-90-43 ; 00098435.

Os gwelwch yn dda, gadewch i ni wybod os ydych yn gwneud trosglwyddiad banc). Buasai'r Trysorydd yn gwerthfawrogi pe buasech yn cynnwys eich enw, cyfeiriad a chôd post llawn. Mae cyfraniad Cymorth Rhodd yn codi gwerth eich arian o 25%. I dorri i lawr ar ymweliadau banc dylai pob rhodd Nadolig gyrraedd cyn Rhagfyr 19fed 2021 os gwelwch yn dda.

- *Ann E Williams, Warden y Ficer, Llwyn Coed, 9 Llwyn Bleddyn, Llanllechid, Bangor, Gwynedd LL57 3EF 01248 600719 annacoed@hotmail.com*
- *Edmond Douglas Pennant, Warden y Bobl and Thrysorydd, Drws Melyn Lodge, Pentref Llandegai, Bangor, Gwynedd LL57 4HU*
- *Nerys Jones, Ysgrifennydd a Sacristan, 2 Bryn Cottages, Llandegai, Bangor, Gwynedd. LL57 4LD 01248 354369 nessie211@btinternet.com*
- *Rhian Llewelyn Jones, 15 Trefonwys, Bangor, Gwynedd. LL57 2HU 01248 355223 rhianlljones@hotmail.co.uk*

**Gwasanaethau Sant Tegai Llandygai**

Mae adeilad yr eglwys ar gau ers Mawrth 2020 oherwydd y Clo ond yn bennaf oherwydd y gwaith atgyweirio gohiriedig, felly mae'r gynulleidfa yn ymuno ag eglwysi eraill yn y fro ar y Sul. Diolch i'n cyfeillion am eu gwahoddiad parod. Ni chynhelir gwasanaethau yn yr eglwys hyd nes bydd y gwaith ar ben. Mae gofyn am oddefgarwch ond, wrth gwrs mynegir gofid am gyflwr yr adeilad sy'n dirywio yn y cyfamser. Cadwch olwg ar ein colofn am y newyddion diweddaraf am ail-agor.


Tra mae eglwysi Bro Ogwen yn disgwyl am apwyntiad Ficer newydd, rhaid cysylltu â'r Archddiacon, Yr Hybarch Mary Stallard, Llandudno 01492 876624 neu 07779418007 ynglŷn ag unrhyw fater yn ymwneud â'r eglwys.



Y sgaffaldiau a gwaith gohiriedig Cam 1 tu fewn i Eglwys St Tegai

Contractwyr Trydanol
Jones & Whitehead Cyf
Swyddfa Gofrestredig
Penrala, Tregarth, Bangor, Gwynedd, LL57 4AU
Ffôn: 01248 601257
Ffacs: 01248 601982
E-bost: info@jonesandwhitehead.co.uk

Elwyn Jones & Co
hefyd yn masnachu fel
Parry Davies Clwyd-Jones & Lloyd LLP
- Cyfreithwyr -
123 Stryd Fawr
Bangor
Gwynedd
(01248) 370224
*Ar gyfer eich holl anghenion cyfreithiol*
*Gwasanaeth dwyieithog personol a chyfeillgar*
*Swyddfeydd eraill:*
*Llangefni (01248) 723106* *Porthaethwy (01248) 719517* *Benllech (01248) 852782*
*Caernarfon (01248) 673616* *Pwllheli (01758) 703000*

Dewch i rannu eich atgofion chi am
Llyfr Mawr y Plant
yng nghwmni Lowri a Jonh Williams
yn Canolfan Cefnfaes
Paned a sgwrs
Sesiwn grefftio i blant yn seiliedig ar y cymeriadau


Darlleniadau o ddameidiau o'r storïau gan Mary Eds
Cyfle i brynu un o bosteri gwreiddiol Wil Cwac Cwac o Eisteddfod Dyffryn Ogwen 1983
Prynhawn Dydd Sadwrn, Tachwedd 27ain. Cychwyn am 2pm

## Ysgol Dyffryn Ogwen

**Drama a Pherfformio**
Mae disgyblion blwyddyn 7 wrth eu boddau gyda'u gwersi 'Drama a Pherfformio' wythnosol. Maent yn archwilio emosiynau a theimladau ar hyn o bryd. Diolch i Mrs. Angharad Beech am y gwersi bywiog yma.

Diolch i Aled Evans, Jenny Pearson ac Eleri Watkins am gynnal gweithdy canu gyda bechgyn blynyddoedd 7 ac 8 yn neuadd yr ysgol.



'Only Boys Aloud'

**Eisteddfod yr Urdd 2020/2021**
Llongyfarchiadau i Gwydion Rhys am dderbyn y wobr 1af am Gyfansoddi Cerddoriaeth i flwyddyn 10 a dan 19 oed yn Eisteddfod yr Urdd 2020/2021. Yn ogystal, derbyniodd Gwydion y 3ydd wobr yn y gystadleuaeth Fedal Gyfansoddi dan 25oed. Erbyn hyn mae Gwydion yn fyfyriwr yn y Coleg Cerdd Brenhinol yn Llundain yn astudio Cyfansoddi.

**Adran Gelf**
Diolch o galon i'r artist Catrin Williams am dreulio deuddydd gyda disgyblion blynyddoedd 8, 9 ac 11 yn gweithio ar brosiect 'Celf Tirwedd Llechi Gogledd Orllewin Cymru'. Mae gwaith arbennig wedi ei gynhyrchu. Bydd Catrin yn dychwelyd i weithio gyda rhagor o grwpiau.

**Sioe Deithiol**
Diolch yn fawr i 'Bin it Education' am y sioe deithiol wych i ddisgyblion blynyddoedd 7 ac 8. Llond bol o chwerthin a braf oedd gweld y disgyblion yn ymuno a chymryd rhan.

**Adran Addysg Gorfforol**
Llongyfarchiadau i dros 20 o ddisgyblion blwyddyn 10 ac 11 sydd wedi cwblhau cwrs hyfforddi arweinwyr rygbi o dan arweiniad Osian Evans, Swyddog Hwb Rygbi. Braf oedd bod nôl yn chwarae gemau pêl droed yn ddiweddar, roedd y timau dan 15, genethod a bechgyn wedi mwynhau yn arw!

**Adran Fathemateg**
Mae disgyblion blwyddyn 7, 8 a 9 wedi bod yn ymarfer eu tablau lluosi gyda '*Times Tables Rockstars*'. Y nod yw ateb y cwestiynau lluosi a rhannu yn gyflym ac mae'r disgyblion yn ennill ceiniogau i wario yn y gêm am bob ateb cywir. Y pencampwyr fesul blwyddyn am y nifer uchaf o geiniogau oedd Mason Hadfield blwyddyn 7; Freda-Jean Pollitt blwyddyn 8 a Caden Burke blwyddyn 9. Y pencampwyr cyflymaf yn eu blwyddyn oedd Steffan Hughes blwyddyn 7; Freda-Jean Pollitt blwyddyn 8; Elan Jones ac Evie Roberts blwyddyn 9.



Steffan Hughes a Mason Hadfield gyda'u tystysgrifau




## DATGANIAD: EISTEDDFOD GADEIRIOL DYFFRYN OGWEN

Yn ddiweddar, cynhaliwyd cyfarfod arbennig o bwyllgor yr eisteddfod ble bu'n rhaid gwneud y penderfyniad anodd i ohirio'r eisteddfod eleni unwaith yn rhagor. Nid ar chwarae bach y gwnaed y penderfyniad hwn, ond gyda'r niferoedd sy'n dioddef o'r firws ar gynnydd yn ein cymunedau a'n hysgolion, teimlwn fel pwyllgor mai annoeth ac anghyfrifol fyddai ceisio cynnal gŵyl gyhoeddus dan y fath amodau. Y mae arnom gyfrifoldeb i sicrhau diogelwch holl drigolion y dyffryn, a theimlwn na fyddai'n bosib i ni wneud hwnny trwy wahodd pawb i ymgynnull mewn un lleoliad.

Mawr obeithiwn y bydd 2022 yn fwy caredig, ac y bydd yr eisteddfod yn dychwelyd i'w ffurf wreiddiol. Fel pwyllgor, hoffem ddiolch i holl drigolion y Dyffryn am y gefnogaeth gyson i'r mudiad, ac edrychwn ymlaen yn obeithiol at ddathlu diwylliant unigryw ein gwlad mewn neuadd lawn pan fo'r haul yn gwenu arnom drachefn.








# Pwy Sy'n Cofio Ddoe?

© Dr J. Elwyn Hughes

Mae'n debyg gen i y bydd nifer o ddarllenwyr *Llais Ogwan* yn gwybod pam y rhoddwyd yr enw 'Yr Hen Aelwyd' ar y stryd fach o dai a godwyd ychydig flynyddoedd yn ôl ar ochr y lôn bost yng ngwaelod Allt Caffi.

Ond mae'r hanes y tu ôl i hyn oll yn mynd â ni'n ôl dros gan mlynedd, at ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Cefais f'atgoffa o hynny'n ddiweddar pan ddes i ar draws 'pamffledyn' bach a argraffwyd gan 'J. F. Williams, Printers, Bethesda' ddechrau mis Ionawr, 1904. Ar du blaen y cyhoeddiad (uniaith Saesneg), sy'n cynnwys 16 o ddalennau, cawn y pennawd 'Bethesda United Club Limited' ac yna rhestr o 'Directors' y cwmni, 11 ohonyn nhw. Y Cadeirydd oedd D. J. Williams, Prifathro cyntaf Ysgol y Sir, a oedd yn byw ar y pryd yn Ogwen Villa (cyn codi Neuadd Wen, y drws nesaf i'r ysgol ym 1910). Dr R. Lumley Roberts, Minyllyn, oedd yr Is-Gadeirydd, y clywais fy mam yn crybwyll ei enw sawl gwaith. Ymhlith y Cyfarwyddwyr eraill, enwir W. J. Parry, Coetmor Hall (llenor, cyfrifydd a gŵr busnes, a alwyd yn 'Quarryman's Champion' gan ei gofiannydd, John Roose Williams); Jeremiah Thomas, Gerlan; H. Meredith Roberts, Lorne House; E. R. Jones, Abercaseg, ac eraill. Caiff tri arall eu henwi ar wahân, dan benawdau mewn print trwm: 'Solicitor': D. Griffith Davies, Hengoed; 'Secretary'; Richard Edwards, 1 Gordon Terrace, a 'Manager': Thomas Roberts, Minyllyn.

A dyna i chi gasgliad o ddynion pwysig a dylanwadol y Dyffryn yn ysgwyddo'r baich o gynnal a rhedeg menter a allai fod o fudd, mewn sawl ffordd, i bobl Bethesda a'r cylch.

Yna, cawn ddalen gyfan o reolau'r '*Reading Room and Library*', i gyd yn Saesneg, ac mae'n rhaid ychwanegu bod hynny'n synnu rhywun o gofio bod tua un rhan o dair o drigolion yr ardal yn Gymry uniaith Gymraeg yr adeg honno! Dyma'r 'Rules':

1. *Perfect silence must be observed in this room.*
2. *Smoking is strictly prohibited.*
3. *Any paper, magazine, or reference book must be given up within fifteen minutes if another member requires it.*
4. *Library books will be distributed every Friday evening, between 8 and 9 p.m*.
5. *Books may be kept a fortnight, but may be renewed weekly.*
6. *Members failing to renew a book, or keeping it beyond the time allowed, must pay a fine of 1 penny for each week, or part of a week.*
7. *Books lent to members are strictly non-transferable and must not be lent to non-members.*
8. *Non-members may borrow at the Library on paying 2 pence per volume per week.*
9. *Anyone found scribbling on, or otherwise damaging papers, or periodicals, or books, or losing books, lent to them from the Library, will be asked to replace them by new ones.*

A dyna pawb yn gwybod ei le! Sut y bu pethau o hynny ymlaen, tybed? Mor braf fyddai hi pe bai rhywun â digon o ddiddordeb ac amser i wneud ychydig rhagor o ymchwil i hanes y Bethesda United Club Limited. Wrth gloi'r ysgrif hon, sylweddolais bod yr un un adeilad yng ngwaelod y pentref wedi bod yn gartref, hefyd, i'r 'Liberal Club' a'r 'Conservative Club' – diddorol fyddai cael rhagor o wybodaeth am y rheini. Yn nes at ein hamser ni, câi ei ddefnyddio gan Yr Urdd. Bydd rhai'n cofio bod ynddo 'stafell snwcyr, lle bydda'r bardd R. Williams Parry, Jac John Eban ac eraill yn treulio oriau'n ymarfer eu sgiliau. Ac am fod ynddo hefyd gaffi yng nghornel yr adeilad, galwyd yr allt serth yn mynd i gyfeiriad Bryn Coetmor yn 'Allt Caffi'.

Yn ein rhifyn nesaf, byddaf yn cyflwyno i chi ragor o fanylion diddorol o'r pamffledyn am ddyddiau cynnar y Bethesda United Club, gan sôn am y cysylltiad rhwng yr hen adeilad o friciau cochion lle cynhelid y Clwb a stryd fach 'Yr Hen Aelwyd'.

# Côr y Penrhyn

gyda Derfel Roberts

**Cyngerdd Codi Arian i Hosbis Dewi Sant**

Mae'r trefniadau i gynnal cyngerdd er budd yr hosbis gyda Rhys Meirion ac Elin Fflur yn y Gadeirlan ym Mangor ar 3ydd Rhagfyr, yn mynd ymlaen yn dda. Derbyniodd y côr nodyn gan Keri ar ran yr hosbis yn dweud bod y tocynnau'n gwerthu'n ardderchog ac y dylai unrhyw un sy'n dymuno cael rhai fynd ati i archebu ar unwaith. Mae tocyn i oedolyn yn costio £10 a thocyn i blentyn yn £5. Arweinydd y noson fydd Dilwyn Morgan.



Dilwyn Morgan

Dywedodd Haydn Davies, Cadeirydd y côr, ei fod yn falch iawn bod Côr y Penrhyn yn perfformio am y tro cyntaf ers y Cyfnod Clo i godi arian at achos mor deilwng â Hosbis Dewi Sant. "Cynhaliodd y côr gyngerdd eithriadol o gofiadwy a llwyddiannus yn y Gadeirlan i gefnogi'r un achos cyn y Cofid-19 ac edrychwn ymlaen at berfformio yno eto gyda Rhys Meirion ac Elin Fflur.

Roedd Owain Arwel Davies, Arweinydd y côr yr un mor frwdfrydig pan ddywedodd bod y côr yn canu cystal ag erioed ac "mae nifer o aelodau newydd wedi dod atom i gyfoethogi'r gwahanol leisiau o'r tenoriaid uchaf hyd at y baswyr trymaf", meddai Arwel.

Perfformiadau i ddod

Noson i gymdeithasu

Ar 11eg o Ragfyr bydd y côr yn cynnal noson gymdeithasol i'r aelodau a'u teuluoedd yn y clwb criced. Noson i ymlacio a chael ail gwrdd yn anffurfiol yw hon ar ôl cyfnod mor faith o gadw pellter cymdeithasol ac ynysu.

**Cyngerdd Nadolig**

Ar 11eg o Ragfyr bydd y cyngerdd Nadolig arferol a gynhelir yng Nghapel Jerwsalem yn digwydd unwaith eto a byd Côr y Penrhyn ymhlith nifer o berfformwyr eraill yn cymryd rhan.

**Cyngerdd Clwb Golff**

Ar 22ain Chwefror bydd y côr yn canu mewn cyngerdd yng Nghlwb Golff Conwy. Cyngerdd canol dydd fydd hwnnw. Roedd y côr i fod i berfformio yno yn ystod y gystadleuaeth Cwpan Curtis yn niwedd Awst ond oherwydd yr anawsterau gyda Cofid-19, ymhlith pethau eraill, ni lwyddwyd i gynnal y perfformiad hwnnw. Profiad gwahanol fydd canu ynghanol dydd a hydera'r golffwyr ymhlith aelodau'r côr y bydd yna 'swing' yn y canu.

## Gair neu ddau - John Pritchard

# DAU ATGOF

Dau ddiwrnod, dwy daith, dau gyfeiriad, dau gapel a dau atgof. Dau ddiwrnod olaf mis Hydref; y naill daith i angladd a'r llall i bregethu; i Lŷn un diwrnod ac i Glwyd drannoeth; mynd heibio i un capel a chynnal oedfa yn y llall; yr atgof cyntaf yn boenus a'r ail yn felys.

Ar y ffordd i'r angladd bu raid mynd ar hyd lôn wahanol oherwydd llifogydd, a honno'n mynd â mi heibio i gapel y bûm yn pregethu ynddo un waith yn unig, pan oeddwn yn fyfyriwr. Dyna'r oedfa waethaf i mi erioed ei harwain, a gallaf gofio'n iawn y cywilydd a deimlwn wrth sgwrsio ger giât y capel wedi'r oedfa ar ôl gwneud llanast llwyr o'r bregeth. Fûm i ddim yno wedyn; a fedraf fi ddim cofio a oedd hynny am na chefais wahoddiad arall ynteu am i mi wrthod y gwahoddiad hwnnw am fod arnaf ormod o gywilydd i fynd nôl! O chwilio heno mewn hen ddyddiadur mi welais mai ym mis Awst 1975 y digwyddodd hyn. Yr unig esgus dros y llanast o bosib oedd mai chwe mis yn unig oedd ers i mi ddechrau pregethu.

Wrth basio'r capel y dydd o'r blaen fedrwn i ddim peidio â theimlo cywilydd. Os rhywbeth, rwy'n teimlo mwy fyth o gywilydd heno wedi gweld yn y dyddiadur mai un o ddarnau mwyaf godidog yr Hen Destament oedd testun y bregeth! Sut medrai hyd yn oed bregethwr amhrofiadol wneud llanast o adnod fel 2 Cronicl 7:14? Mae eraill, mae'n debyg, wedi fy nghlywed yn pregethu'n waeth dros y blynyddoedd, ond am ryw reswm dyna'r oedfa a gofiaf fi. Ond er y cywilydd, y cysur mawr i mi, fel i bawb sy'n credu addewid yr Efengyl, yw bod Duw'n maddau i'r edifeiriol bob llanast a phechod. Yn fy mywyd, fel yn fy ngwaith, y mae llawer gormod o bethau i fod â chywilydd ohonynt, ond diolchaf o hyd am barodrwydd Duw i faddau popeth.

Ond hanner y stori yw honno gan fod i mi, fel i bawb mae'n debyg, atgofion eraill, melysach. Ac felly diolch am yr ail gapel a'r atgof am briodas a gaed ynddo yn haf 1980. Nid ein priodas ni mohoni, a doeddwn i ddim yn cymryd rhan ynddi. Un o'r gwesteion oeddwn, ac a bod yn onest, ychydig a gofiaf am yr oedfa. Ond rwy'n cofio giât y capel hwnnw hefyd, a hynny oherwydd y rhan fechan sydd iddi yn yr atgofion mwy na melys am ddiwrnod cwbl allweddol. Ac wrth fynd trwy'r giât honno'r dydd o'r blaen (neu o leiaf trwy'r fynedfa gan fod y giât o bosibl wedi ei hadnewyddu) gallwn ddiolch o'r newydd am ragluniaeth Duw a'r ffaith fod popeth yn ddiogel yn ei law.

Yn dy law y mae f'amserau,
amser gwynfyd, amser croes,
amser iechyd digymylau
a chysgodion diwedd oes;
gad im mwyach
dreulio 'nyddiau yn dy law

## Carneddi

**Pen-blwydd arbennig**

Llongyfarchiadau i Falmai Davies, 83 Ffordd Carneddi, ar ddathlu ei phen-blwydd yn 80 oed ar 14 Hydref. Pob dymuniad da i chi, Falmai, oddi wrth y teulu a ffrindiau



BARBWR OGWEN
Torri Gwalltiau
Dynion a Phlant gan Alison
Rhaid gwneud apwyntiad.
Ffoniwch: 07796 038824

Owen's Tregarth
Cerbydau 4, 8 ac 16 sedd
Arbenigo mewn meysydd awyr
Cludiant Preifat
a Bws Mini

01248 60 22 60 | 07761 619 475
www.owenswales.co.uk

CHRIS GRIFFITHS CYF
Trwsio ffenestri upvc, drysau, cloeau, bachau, twll llythyrau ac unedau gwydr wedi chwythu

18 Carreg Felin
Llandegfan
Ynys Môn
LL59 5YB
☎ 01248 713 369 neu 07813 455653

Arfbais Douglas Arms
Cwrw Casgen - Gardd Gwrw
Oriau Agor
Llun a Mawrth - wedi cau
Mercher – Gwener 18:00 – 23:00
Sadwrn 15:30 – 00:00
Sul : 18.00 – 23.00
01248 602537

MODURDY FFRYDLAS
Profion M.O.T.
Perchennog
A. Ll. Williams
Stryd Fawr, Bethesda
♦ PROFION M.O.T. ♦
GWASANAETH ♦ ATGYWEIRIO
♦ TEIARS A BATRIS ♦
GWASANAETH TORRI I LAWR NEU DDAMWAIN
☎ 600723
Ffacs: 605068

JOHN ROBERTS

Paentiwr
Papurwr
Teilsiwr
Symudol: 07747 628650
Ffôn: 01248 600995

post@llaisogwan.com

# Marchnad Ogwen

Cafodd Marchnad mis Hydref groeso mawr! ’Roedd y cwsmeriaid yn falch iawn o gael gweld ei gilydd a ffrindiau a chael sgwrs wedi misoedd o gyfyngu. Wrth gwrs, roeddent hefyd yn falch o gael siopa unwaith eto yn y Farchnad. ’Roedd y Stondinwyr yn hapus iawn i ail gychwyn hefyd ac yn falch iawn o weld ei gilydd – mae nhw’n dipyn o fêts!

Croeso i Alun Davies sydd wedi ymuno â ni. Mae Alun yn creu nwyddau llechi deniadol iawn. Anrheg Nadolig addas iawn o’r ardal hon.

Yn anffodus i ni, mae Elin Pritchard a’i stondin Popty Pritch wedi gorffen efo ni. Bydd colled ar ôl Elin ond wedi dweud hynny, rhaid llongyfarch Elin gan ei bod wedi derbyn swydd gyda’r Gwasanaeth Ambiwlans. Da iawn chdi Elin a phob dymuniad da i ti.

Nid yw stondin Cardiau Maes Melyn yn y Farchnad ar hyn o bryd. Mae’r perchennog, Jan Jones yn cael cyfres o driniaethau ar ei llygad. Nid yw yn gweld yn glir iawn i wneud cardiau ar y funud! Gobeithio bod yn ôl yn y flwyddyn newydd – wedi cael sbectol newydd hefyd!

Oherwydd absenoldeb un o’n Stondinau, byddwn yn gallu cynnig lle i un Stondin Elusen ym Marchnad Rhagfyr 11eg. Cysylltwch â’r Ysgrifennydd - ysgrifennydd@marchnadogwen.co.uk am fanylion.

Rydan ni wedi ail ddechrau rhedeg ein cynllun ‘cardiau glas’. Dyma ein ffordd ni o ddiolch i chi am eich cefnogaeth i’r Farchnad. Dyma sut mae’n gweithio – ar ôl i chi brynu o Stondin yn y Farchnad, cewch hawlio stamp (gyda dyddiad y Farchnad) ar gefn eich cerdyn. Caniateir un stamp am bob ymweliad â’r Farchnad. Pan fyddwch wedi casglu 3 stamp, ewch a’r cerdyn i’r Caffi a chewch hawlio paned o de neu goffi am ddim. Byddwn ni wedyn yn cadw eich cerdyn ac yn ei gynnwys mewn raffl gyda gwobr o £50 i’w wario yn y Farchnad. Pob lwc!

Gellir prynu Tocyn Anrheg Marchnad Ogwen. Mae posib prynu’r Tocyn gan ein Trysorydd, Angharad Huws, ar Stondin Crefftau Nodwydd. Chi sydd i benderfynu gwerth y tocyn. Caiff y sawl sy’n derbyn yr anrheg wario’r swm a nodir ar unrhyw stondin neu gyfuniad o stondinau.

Bydd Marchnad Nos Tachwedd 24ain yn noson i’w chofio unwaith eto! Bydd y Farchnad ar agor o 5 o’r gloch tan 8. Croeso cynnes.

Cofiwch, mae’n **RHAID** gwisgo mwgwd wrth siopa’n y Farchnad os gwelwch yn dda. Diolch yn fawr.

Mae gwybodaeth lawn ar ein gwefan

**www.marchnadogwen.co.uk**.

# Iaith Pesda

Mae gan gymunedau a bröydd eu hiaith eu hunain. Geiriau na chlywir mewn rhannau eraill o Gymru, neu eiriau sy’n dangos tebygrwydd, efallai o’r un gwreiddyn, ond bellach wedi newid eu ffurf o ardal i ardal. Gall rhai godi o ddiwydiant sydd ynghlwm â’r ardal, y chwarel yn bendant felly yn Nyffryn Ogwen, neu o fyd amaethyddol a chefndiroedd eraill sy’n unigryw i’r ardal am wahanol resymau.

Mae ymadroddion neu ddywediadau hefyd yn gallu ymwneud â’r tywydd. Ym Methesda mae’n arferol gweld wal wynt uwchben y Carneddau a Gyrn Wigau. Un wal hir syth o gymylau gwyn sy’n darogan tywydd gwyntog. Mae eglurhad gwyddonol am y ‘wal’ hon. Wyddoch chi beth ydyw? A Ffair Llan newydd fod, beth am y goel bod eira cyn y ffair yn arwydd o aeaf tyner? ’Mae eira cyn Ffair Llan yn ’thylu’r gaeaf’ (erthylu’r gaeaf – ei ddod cyn pryd).

Mae llawer o eiriau ac ymadroddion unigol hefyd sydd yn unigryw i’r ardal, megis ‘moirio’ (hefyd ‘mwyrio’ a ‘moerio’) am bysgota efo genwair – na, nid yn y môr ond mewn afon a llyn! Yn ôl Geiriadur Prifysgol Cymru, mae’n bosib ei fod o’n dwâd o ‘i enweirio’. A beth am ‘lab’? Gair am gredyd gan siopwr pan fyddai pobl yn methu talu am rywbeth ar y pryd. Yn ôl Ernest Roberts, mae’r gair yn perthyn i’r cyfnod pan oedd chwarelwyr yn cael cyflog bob chwech wythnos ac wedyn bob mis.

A ydach chi’n gwybod am fwy, neu oes rhai newydd? Beth am gysylltu â mi er mwyn cynnal colofn newydd yn sôn am iaith Pesda – a’r dyffryn, wrth gwrs.

Clywais un dda mewn sgwrs yn ddiweddar gan ŵr hynaws o Ffordd Carneddi pan yn siarad am ryw ddihiryn “Mi fasa fo’n dwyn llefrith o dy dê di.”

Os oes gennych ddiddordeb ac enghreifftiau, beth am gysylltu efo fi, Mary Jones, 42 Erw Las Bethesda, LL57 3NN, Ffôn: 07443047642 neu maryeds@hotmail.co.uk.



J. TEMPLE MORRIS A'I FAB

Pob Math o Waliau Cerrig,
Ffensio, Tarmacio a Thirlunio.
Gwaith gyda peiriant tyrchu bach.
07770 900531
01248 600282
jtemplemorris@btinternet.com

Marchnad Ogwen

Tachwedd 24ain
5.00pm - 8.00pm

Rhagfyr 11eg
9.30am - 1.00pm

Ionawr 8fed
9.30am - 1.00pm

Neuadd Ogwen

Bwydydd, Crefftau, Lleol

www.marchnadogwen.co.uk
Facebook

# Mynydd Llandygai

Er fod blwyddyn anodd arall wedi mynd heibio bellach, dymuna aelodau Clwb y Mynydd a ffrindiau y diweddar Helen Williams, Penrhiw, a Theta Owen, Gwêl y Môr, anfon eu cydymdeimlad dwysaf at y ddau deulu yn eu colled. Bu Helen a Theta yn anfon newyddion y Mynydd i’r Llais am gyfnod. Beth bynnag oedd yr achos, bu’r ddwy bob amser yn barod i roi eu hamser a’u cefnogaeth at popeth yn y pentref. Helen a Theta. Bydd colled mawr ar eich ôl yn y Mynydd.

CANOLFAN CEFNFAES

**BORE COFFI**

EGLWYS CRIST GLANOGWEN

**Sadwrn, 27 Tachwedd**

**10.00 – 12.00**

Mynediad : £1.00

# Bethesda

**Mary Jones**,
maryeds@hotmail.co.uk
(07443 047642)
**Joe Hughes**, Awel y Nant,
Ffordd Ffrydlas, Bethesda
(601902)

## Carnifal Bethesda




Dyma'r newyddion diweddaraf i golofn fisol Carnifal Bethesda. Mae'r pwcedi arian wedi codi £764, gwnaethpwyd elw o £864 yn y Noson Bingo, a diolch i *Blakemore* am eu rhodd o £60 tuag at y gwobrau.

Hyd yma does dim ceisisadau wedi dod o Dregarth, Mynydd Llandygai, Glasinfryn, Caerhun na Rhiwlas i fod yn Frenin, Brenhines, Tywysog, Tywysoges na'r Llysgenhadon, felly rydym yn ymestyn y dyddiad i wneud cais tan Tachwedd 20$^{fed}$. Cysylltwch â aelod o'r pwyllgor neu drwy dudalen Gweplyfr (Facebook) 'Carnifal Bethesda'.

Cofiwch ar y dudalen arbennig honno, ar Dachwedd 27$^{ain}$, bydd y dewisiadau am yr uchod i gyd yn cael eu gwneud yn fyw.

Os oes gan blentyn o'r oedran pump i fyny ddiddordeb mewn ymuno â grwp *Majoretts* yna anfonwch enwau at Wendy Ellis neu Emma Roberts ar dudalen Carnifal Bethesda.

Cofiwch gadw llygad am y raffl Nadolig a bydd Taith Siôn Corn ar Ragfyr 17$^{eg}$.

Diolch i bawb am eu cefnogaeth.

Mwy y mis nesaf.

**Diolch**
Dymunai Mrs. Dilys Edwards, Ffordd Coedmor, ddiolch yn fawr i bawb am yr holl gardiau, anrhegion, galwadau ffôn ac anrhegion ar achlysur ei phenblwydd yn ddeg a phedwar ugain oed yn ddiweddar.

Hoffai Bob a Meinir ddiolch yn fawr i'w teulu, ffrindiau a chymdogion ar eu rhoddion caredig yn dilyn genedigaeth eu merch bach Beca Alys.

**Ymddeol**
Dymunwn yn dda iawn i Mrs. Helen Roberts, Abercaseg ar ei hymddeoliad o Ysgol Llanllechid. Bu Helen yn weinyddes yn yr ysgol ers tri deg dau o flynyddoedd ac mae'r plant oedd dan ei gofal pan oeddynt tua pump oed yn dal i'w chofio hi, a'i natur dawel, a hwythau bellach yn eu tridegau. Pob hwyl ar yr ymddeoliad a chyfle i hamddena.

**Penblwydd Arbennig**
Penblwydd hapus iawn i Gaynor Elis-Williams a ddathlodd benblwydd arbennig ar ddiwrnod Calan Gaeaf.

**Radio**
Ddydd Mawrth, 19$^{eg}$ o Hydref, ar raglen Aled Hughes, cafwyd sgwrs gan Marc Roberts, Glan Ffrydlas, am deithiau cerdded i'r deillion yn ardal Dyffryn Ogwen.

**Ysbyty**
Anfonwn ein cofion a'n dymuniadau gorau am wellhad buan at sawl un a fu yn yr ysbyty yn ddiweddar, yn eu plith:- Rhiannon Efans, Ffordd Pant; Irfon Fraser, Maes Coetmor a Eifion Davies, Ffordd Ffrydlas.

**Cydymdeimlo**
Anfonwn ein cofion a'n cydymdeimlad at deulu Mr. Ken Davies, Maes Coetmor, fu farw yn mis Hydref yn ei gartref yng nghwmni ei deulu. Roedd yn dad arbennig i Neil, Rachel a Medi ac yn fab i Delia a'r diweddar Nefydd, ac hefyd yn frawd hoffus i Sandra, Sheryl, Sharon a Rebecca.

Mr. a Mrs. Arwel Davies a'r teulu, Ffordd Ffrydlas. Wedi colli modryb i Arwel yn Frongoch, Y Bala, sef Mrs. Sydna Owen a fu farw ar 30$^{ain}$ o Fedi.

Teulu y ddiweddar Mrs. Norma Jones, Braichmelyn a fu farw ar 23$^{ain}$ o Fedi.

Mr. a Mrs. Calvin Hughes a'r teulu, Maes Coetmor, wedi colli ewythr, sef Mr. Edward Hughes, Y Groeslon,( gynt o Glanogwen) ar 29$^{ain}$ o Medi.

Ann Griffiths a'r teulu, Rhes Gordon, ar golli ewythr yn Llanfairfechan (gynt o Madryn, Felin Hen), sef Mr. Elwyn Roberts yn 96 mlwydd oed.

**Marwolaethau**
*Alexander MacDonald*
Ar 10$^{fed}$ o Hydref yn Ysbyty Gwynedd, bu farw Mr. Alexander MacDonald (Alec), 12 Bryn Tirion yn 72 oed. Priod annwyl Mrs. Mona MacDonald, tad hoffus i Andrew, Stuart, Ian ac Emma, a thaid annwyl i'w ŵyrion â'i ŵyresau. Cynhaliwyd ei angladd fore Iau, 21$^{ain}$ o Hydref, gyda gwasanaeth yn ei gartref i'r teulu, ac yna yn gyhoeddus ym Mynwent Coetmor gyda llu o deulu, cyfeillion a chymdogion yn bresennol. Y Parchedig Ddr. Huw John Hughes oedd yn gwasanaethu. Anfonwn ein cydymdeimlad atoch chi, Mona, a'r teulu i gyd yn eich colled.

*Rita Harris*
Yn dawel yn Ysbyty Gwynedd ar 29$^{ain}$ o Fedi, bu farw Mrs. Rita Harris, Bwthyn, Bryn Bella. Priod annwyl Mr. Bert Harris a mam garedig i Tom, Janet a Margaret, ac yn nain hoffus. Gwraig dawel a pharchus oedd Rita, ond yn barod am sgwrs. Roedd wrth ei bodd gyda'i gardd, ac yn selog bob Sul yng Nghapel Carmel, Llanllechid. Cynhaliwyd ei hangladd ar fore Sadwrn, 9 Hydref, yn Amlosgfa Bangor gyda'i gweinidog, y Parchedig John Pritchard yn gwasanaethu. Cydymdeimlwn â'r teulu i gyd.

*Peter John Gillingham*
Yn sydyn yn ei gartref, 2 Rhes William, yn 77 mlwydd oed, bu farw Mr. Peter John Gillingham. Bu ei angladd ar ddydd Llun, 11$^{eg}$ o Hydref, gyda gwasanaeth yn Eglwys Crist Glanogwen a Mynwent Coetmor. Cydymdeimlwn â'r teulu oll yn eu profedigaeth.

**Dod i'r Brig**
Dyna oedd hanes Bleddyn Williams ar raglen deledu *Am Dro* ym mis Hydref. Allan o bedair taith gerdded, ei un fo gafodd ei farcio uchaf gan y teithwyr eraill. Tywysodd y tri arall i fyny i Lyn Bochlwyd. Roeddynt wedi rhyfeddu at yr olygfa odidog ac wedi cael nofio yn y llyn. A chysidro bod Bleddyn yn athro daearyddiaeth cafwyd ambell i wers ar sut y ffurfiwyd y dyffryn wrth edrych i lawr am Nant Ffrancon, heb sôn am ambell i wers o pa mor bwysig ydy cadw enwau Cymraeg cynhenid ar fynyddoedd a llynnoedd ein hardal sy'n beryg o gael eu tanseilio. Da iawn Bleddyn a llongyfarchiadau.




Manylion Cyswllt
Cynghorwyr Sir
Dyffryn Ogwen

Rachub, Carneddi, Gerlan, Braichmelyn
cynghorydd.paulrowlinson@gwynedd.llyw.cymru 01248 605365

Tregarth, Mynydd Llandygái
cynghorydd.dafyddowen@gwynedd.llyw.cymru 01248 605523

Bethesda
cynghorydd.rheinalltpuw@gwynedd.llyw.cymru 07789 742092

Llanllechid, Talybont, Llandygái, Aber, Tyn-y-Maes
cynghorydd.dafyddmeurig@gwynedd.llyw.cymru 07765 400140

@CynghorwyrDyffrynOgwen @PlaidCymruOgwen

## Yr Eglwys Unedig

**Yr Ysgol Sul**
Hyfryd oedd cael cwmni'r plant yn ein Gwasanaeth Diolchgarwch ar y 10fed o'r mis. Cymerwyd rhan gan Luned, Elin, Menna, Gwen, Illtyd, Awel a Mared, ac mae'n diolch yn fawr iddynt. Casglwyd llawer o gyfraniadau i'r Banc Bwyd ym Methesda, a diolch i'r gynulleidfa am eu haelioni.

**Y Dechnoleg Newydd**
Erbyn hyn, mae cwmni BT wedi cysylltu'r capel â Wi-Fi, sydd yn golygu y gallwn wneud defnydd o'r rhyngrwyd drwy gyfrwng *Zoom* ac adnoddau cyffelyb. Mae'r Gymdeithas Hanes eisoes wedi elwa ar hyn yn eu cyfarfod diwethaf, a bydd yr adnodd gwerthfawr hwn ar gael i gymdeithasau a chyfarfodydd eraill – cysylltwch â Walter Williams ar 01248 601167 am fwy o wybodaeth.

**Y Boiler**
Newydd da arall – mae pwmp newydd wedi'i gysylltu i'r boiler, felly bydd y capel yn glyd dros y gaeaf!

**Cofion**
Anfonwn ein cofion a'n dymuniadau gorau at Mrs. Rhiannon Ifans, sydd wedi derbyn llawdriniaeth yn ddiweddar. Yr un yw'n dymuniadau i bawb sydd yn gaeth i'w cartrefi, a'r rhai sydd ddim yn mwynhau'r iechyd gorau ar hyn o bryd. Diolchwn i Mrs. Nerys Griffiths am ei gwaith clodwiw yn cadw mewn cysylltiad â hwy.

**Oedfaon**
'Rydym yn dal i gynnal oedfaon yn y capel ac ar y ffôn ar y Sul, gan gynnwys gwasanaeth Cymun o dan ofal Y Parchedig Megan Williams, a negeseuon amserol gan Y Parchedigion John Owen, Olaf Davies a Gerallt Lloyd Evans. Diolch iddynt i gyd am eu cyfraniadau gwerthfawr.

**Cyhoeddiadau'r Sul:**
Tachwedd 21: Y Parchedig Mererid Mair (10)
Mr Dafydd Iwan (5)
Tachwedd 28: Y Parchedig Iwan Ll. Jones (10)
Y Parchedig Ddr Elwyn Richards (5)
Rhagfyr 5: Y Parchedig Anna Jane Evans
Rhagfyr 12: Trefniant mewnol (10)
Rhagfyr 19: Gwasanaeth Nadolig Cymunedol (7)
Rhagfyr 25: Gwasaneth Cymun (9.30)
Rhagfyr 26: Dim gwasanaethau

## Eglwys Crist, Glanogwen

**Diolch**
Diolch unwaith eto i bawb sydd wedi cyfrannu at yr Apêl i atgyweirio'r eglwys, mae mor braf gweld y cyfrif yn cynyddu.

Cafwyd noson Bingo hwyliog iawn ar Hydef 15fed, gan godi £550 at y Gronfa. Diolch i bawb am gefnogi, i'r Clwb Criced am eu croeso ac i Mr. Fred Buckley am ei waith arbennig yn galw'r rhifau. Hefyd cafwyd cefnogaeth dda i'r stondin yn Marchnad Ogwen, gan godi £150 arall. Mae dros 170 wedi ymuno â'r Clwb Cant, ac fe dynnir y rhifau lwcus yn gyhoeddus ar y nos Wener olaf o bob mis yng Ngwesty'r Douglas am 7.30.

Yr enillwyr cyntaf, am fis Hydref yw fel a ganlyn:
£50: Mrs Margaret Ll. Roberts
£20: Elliw M. Owen
£15: Diane Hulme

Cofiwch os gwyddoch am unrhyw un fyddai'n fodlon helpu Ian ac Arwel yn y gwaith o glirio mynwent Glanogwen, rhowch ganiad i Ian ar 600931 er mwyn trefnu dyddiad cyfleus.

Mae Mynwent Coetmor yn edrych yn daclus iawn bellach, a llawer o'r coed wedi eu gwerthu i roi hwb i gost cynnal y mynwentydd. Mae croeso i'r rhai sydd wedi 'helpu clirio'r coed' i gyfrannu at y cyfrif.

Cynhelir gwasanaeth Cymun bellach pob bore Sul am 11 .00, ac mae trefniadau'r Nadolig fel a ganlyn:

**Bore Sul, Rhagfyr 19eg**
11am: 9 Llith a Charol
**Noswyl Nadolig, Rhagfyr 24ain**
4y.h: Wrth y Preseb: gwasanaeth i'r plant
7y.h: Cymun Nadolig

Fel arfer, anfonwn ein cofion cynhesaf at bawb yn yr ardal sydd yn unig neu'n sâl, gan gofio'n arbennig am y rhai a gollwyd yn ddiweddar yn yr ardal. Cofiwch roi gwybodath os gwyddoch am rhywun sydd angen gweddi, ymweliad, neu Gymun Cartref.

Cofiwch am ein gwasanaeth bob bore Mercher am 10.30, gyda chyfle am baned a sgwrs i ddilyn. Mae croeso i bawb i'r holl wasanaethau.

**Manylion Cyswllt**
Tra mae eglwysi Bro Ogwen yn disgwyl am apwyntiad Ficer newydd, rhaid cysylltu â'r Archddiacon, Yr Hybarch Mary Stallard, Llandudno, ar 01492 876624 ynglyn â unrhyw fater yn ymwneud â'r Eglwys, gan gynnwys trefnu priodas neu fedydd.

Cofiwch bod Barbara (600530) a Glenys (600371) ar ben arall y ffôn os am gael sgwrs.

MODURON PANDY Cyf.
MOT Diesel a Chatalydd
Atgyweirio MOT
Gwasanaethu Cerbydau
Cydbwyso Teiars
Batris
Tracio
01248 600619
moduronpandy@yahoo.com
www.moduronpandymotors.co.uk
Tregarth, Bangor,
Gwynedd LL57 4AY
UNIPART CAR CARE CENTRE

JR SGAFFALDIAU Cyf. JR
SCAFFOLDING Ltd.
YR IARD, FFORDD STESION, BETHESDA,
GWYNEDD LL57 3NE
ebost: sales@jrscaffolding.co.uk
Ffôn/Ffacs:
01248 601754
07770 568743 (symudol)
CITB

STEPHEN JONES
TREFNWR
ANGLADDAU CYF
PEN Y BRYN BETHESDA
GWASANAETH PERSONOL
PEDAIR AWR AR HUGAIN
CAPEL GORFFWYS
BETHESDA • 01248 600455 • 07770265976
Ebost: stephenjonesfuneraldirectors@outlook.com

A hoffech chi gael hysbyseb yn y papur?



# Y Gerlan

**Caren Brown**, Cilwern, 14 Ffordd Gerlan, Bethesda, LL57 3ST.
(01248 602509 / 07789 916166) carenelaine@hotmail.com
**Linda Brown**, 1 Gwernydd, Gerlan, Bethesda, LL57 3TY. (01248 601526)

**Llongyfarchiadau**

Llongyfarchiadau i Ianto Shea, Ffordd Gerlan, sydd wedi graddio yn Y Gyfraith. Yn ogystal â dathlu ei lwyddiant academaidd, mae Ianto hefyd yn dathlu ei ddyweddïad â Autumn Schmidt o Ganada. Mae Autumn wedi bod yn byw ym Methesda am gyfnod ond wedi gorfod dychwelyd i Ganada ar hyn o bryd. Mae Mam a Dad (Hannah a Jez Shea), Cai a'r teulu yn gobeithio'r gorau i'r ddau ohonoch.

**Cydymdeimlo**

Mae fel petai cwmwl tywyll wedi bod dros y pentref dros yr wythnosau diwethaf wrth i ni ffarwelio â dau o selogion Gerlan.

Bu farw Dewi Roger Owen, Rallt Isaf, yn dawel yn Ysbyty Gwynedd ar y 23ain o Hydref ac yntau'n 90 mlwydd oed. 'Roedd Dewi'n briod cariadus i'r diweddar Lorraine, ac yn Dad arbennig i Tony (Llwyn Rhandir, Ciltwllan) a'r ddiweddar David. Yn dad yng nghyfraith i Siân, taid annwyl i Meinir, Osian, Math a Pedr, hen-daid hoffus Beca, brawd yng nghyfraith Rhoda a Richard. Bydd yn golled drist i'w holl deulu a'i ffrindiau. Cynhaliwyd gwsanaeth cyhoeddus yn Eglwys Crist Glanogwen ar Dachwedd 5ed ac yna ym Mynwent Coetmor.

'Roedd clywed am farwolaeth Hefin Hughes, Stryd Hir, yn sioc fawr i bawb ac yn golled enbyd i'w deulu.'

Mae ein cydymdeimlad dwysaf yn mynd at Elaine, Dylan, Lisa a'u teuluoedd wrth iddynt golli gŵr, tad a thaid arbennig iawn. 'Roedd Hefin yn gymeriad annwyl, hwyliog, barod ei gymwynas ac yn llawn straeon difyr. Bydd cymaint yn dy golli Hefin wrth i ti ein gadael yn llawer rhy fuan. Mae ein cofion hefyd efo Mrs. Jean Hughes, mam Hefin, yn Nhal y Bont.

**Babis Newydd Gerlan**

Llongyfarchiadau i Tomos Lewis Jones a Jennifer Bone, Rallt Uchaf, ar enedigaeth Nora fach. Mae Pyrsi wrth ei fodd yn cael bod yn frawd mawr dwi'n siŵr.

Llongyfarchiadau hefyd i Buddug Lewis-Jones a Mark Humphreys, Stryd y Ffynnon, ar enedigaeth Thôr Llywelyn Humphreys. Mae Thôr yn gefnder bach newydd i Pyrsi a Nora ac felly mae'r teulu yn dathlu genedigaeth ddwbl!

Mae babi bach newydd wedi cyrraedd Gwernydd hefyd. Llongyfarchiadau i Llinos a Gavin Owen ar enedigaeth Cerys - chwaer fach newydd i Efa. 'Da ni'n edrych ymlaen at gwrdd â'r newydd anedig.

**Cydymdeimlo**

Cydymdeimlwn hefyd efo Mrs. Gwyneth Morris, Gwaen Gwiail, wrth iddi golli ei chwaer Sydna Owen, Bala, yn frawychus o sydyn. Gyrrwn ein cydymdeimlad dwysaf atoch fel teulu a chofion cynnes atoch i gyd.

**Sêr y Sgrîn**

Os buoch ch'n gwylio S4C dros yr wythnosau diwethaf, mae'n bosib y bu i chi weld rhai o drigolion Gerlan arno.

Bu Dafydd Fôn, Stryd y Ffynnon, yn rhannu ei wybodaeth leol efo ni ar raglen *Cynefin*. Lisa Jên, Gwernydd, yn rhannu ei meddyliau a'i phrofiadau efo ni ar *Dechrau Canu Dechrau Canmol*. A Mark Humphreys, Stryd y Ffynnon, yn mynd â ni ar daith gerdded yn *Am Dro* ac ennill £500 yn y fargen wrth iddo ddod yn gydradd gyntaf yn y gystadleuaeth.

Diolch i chi am roi Gerlan a Bethesda ar y map. Os nad ydych wedi cael cyfle i weld y rhaglenni eto, cofiwch wylio'n ôl ar S4C Clic – rhywbeth difyr i wneud yn ystod nosweithiau hir a thywyll yr Hydref!




# Côr y Dyffryn

Gyda thristwch yr wyf yn gorfod datgan na fyddaf yn gallu ymgymeryd â'r gwaith o arwain y Côr bellach, am amryw resymau, gan gynnwys y ffaith fy mod yn colli fy nghlyw. Gwn hefyd bod amryw o'r aelodau yn gofidio am iechyd a diogelwch yn dilyn y pandemig, a bod hyn wedi gwneud iddynt deimlo'n fregus iawn.

Bydd gennyf atgofion hynod o felys o'r cyfnod o dros ddegawd a dreuliais gyda'r Côr, gyda llawer o hwyl a chwerthin yn yr ymarferion, a heb anghofio wrth gwrs y teimlad o falchder wrth i ni i gyd weld ffrwyth ein llafur yn y datganiadau safonol a berfformiwyd bob Nadolig. Fe gofiaf am byth y wefr o berfformio 'Teilwng yw'r Oen' bedair gwaith, a hynny i gapeli llawn. Mae fy nyled yn fawr iawn i bob un ohonoch a fentrodd i Festri Jerusalem ar nos Sul ar hyd y blynyddoedd, a thestun balchder oedd gweld aelodau o bob rhan o'r gymuned yn dod at ei gilydd fel hyn. Derbyniwch fy niolch, a'm gwerthfawrogiad o'ch ymroddiad a'ch ffyddlondeb.

Cofiwch, byddaf yn dal i drefnu'r Gwasanaeth Nadolig Cymunedol yng nghwmni Côr y Penrhyn, Côr Ysgol Dyffryn Ogwen, Parti'r Urdd, ac unigolion, a chynhelir y gwasanaeth hwnnw nos Sul, Rhagfyr 19eg, yng Nghapel Jerusalem, am 7 o'r gloch. Croeso cynnes iawn i chi i gyd i gyd-ddathlu'r Ŵyl!

**Menai Williams**

**Londis Bethesda**
☎ 01248 605566
Archfarchnad hwylus a Swyddfa Bost
Gwasanaeth personol gyda'r pwyslais ar y cwsmer
Tocynnau Loteri, cardiau a biliau trydan a nwy
Ar agor 7.00 y bore tan 10.00 yr hwyr 7 diwrnod yr wythnos

**DAFYDD CADWALADR**
Cynhyrchion Coedlannol
Coed Tân - Llwythi bach a mawr
Ysglodion pren i'r ardd
Ffensio a thorri coed
Asiant system gwresogi trwy losgi coed
01248 605207

**Gareth Williams**
Trefnydd Angladdau
Crud yr Awel
1 Ffordd Garneddwen
Bethesda
600763 neu 07708 008051
GWASANAETH DYDD A NOS

# CYMDEITHAS HANES DYFFRYN OGWEN

**Rhaglen 2021/2022**

Cynhelir yr holl gyfarfodydd ar yr **ail Nos Lun** ymhob mis am **7.00 o'r gloch AG EITHRIO** cyfarfod mis Rhagfyr. Bryd hynny cynhelir y Cyfarfod Blynyddol am 7.00 o'r gloch, a bydd y ddarlith yn cychwyn am **7.15 o'r gloch**.

**Lleoliad y cyfarfodydd**:

**Wyneb yn wyneb**: Yn Festri Capel Jerusalem, Bethesda. Cofrestrwch efo garethllwyd197@btinternet.com

**Rhithiol tros Zoom**: Cofrestrwch efo bethan@ogwen.org

Cofrestrwch erbyn 12 o'r gloch dydd Llun y ddarlith ar yr hwyraf

| 2021 | |
|---|---|
| Nos Lun<br>11 Hydref | 7.00 **Caleb Rhys** – *Canu'r Nefoedd – cipolwg ar rai o brif ddatblygiadau cerddorol Dyffryn Ogwen* |
| Nos Lun<br>8 Tachwedd | 7.00 **Nigel Beidas** – *Corlannau'r Carneddau a thu hwnt* |
| Nos Lun<br>13 Rhagfyr | 7.00 **Y CYFARFOD BLYNYDDOL**<br>7.15 **Howard Huws** – *Saint Dyffryn Ogwen* |
| **2022** | |
| Nos Lun<br>10 Ionawr | 7.00 **Lois Mai Jones** – *Tu hwnt i'r Castell* |
| Nos Lun<br>14 Chwefror | 7.00 **Dr. David Jenkins** – *"Gyda'r amcan o roddi cyfleusterau i chwarelwyr Bethesda wneud defnydd enillfawr o'u harian" – hanes Cwmni Llongau Bethesda, 1877-1898* |
| Nos Lun<br>14 Mawrth | 7.00 **Dr. Gwilym Owen** –<br>*Harri'r Wythfed a Chochwillan*<br>**Darlith Goffa Rhiannon Rowlands** |
| **FFI AM<br>Y CWRS** | £6.00 i rai mewn gwaith<br>£3.00 i bensiynwyr a'r di-waith<br>Plant ysgol am ddim<br>Cost darlithoedd unigol = £1.50 |

Y ffioedd i'w talu i gyfrif 'Cymdeithas Hanes Dyffryn Ogwen' drwy: BACS: 40-16-02 41386212 neu drwy siec.

Swyddogion y Gymdeithas yn ystod 2020/21:

**CADEIRYDD**
Wynne Roberts, Bryn Difyr, Braich Talog (01248) 602021

**TREFNYDD / TRYSORYDD**
Dafydd Roberts, (01248) 600798 dafydd@caerwern.cymru

**YSGRIFENNYDD**
Gareth Llwyd, Talgarnedd, Bethesda
(01248) 601415

# Rhagor o grantiau gan Elusen Ogwen

A chynhadledd COP26 y Cenhedloedd Unedig ar newid hinsawdd yn cael ei chynnal yn yr Alban ym mis Tachwedd, dyma newyddion da fod Elusen Ogwen wedi dyrannu dau grant a fydd yn cyfrannu at gynnal bioamrywiaeth Dyffryn Ogwen ac i leihau ôl troed carbon yr ardal.

Clwb Rygbi Bethesda yw'r diweddaraf i dderbyn arian grant gan yr Elusen, a hynny ar gyfer dau brosiect gwahanol a fydd yn dod â budd i'r clwb ac i gymuned ehangach Dyffryn Ogwen. Gydag un o'r grantiau bydd y clwb yn mynd ati i blannu rhagor o goed yn Nôl Ddafydd ac yn adeiladu bocsys adar ac ystlumod. Bydd yn gwneud hynny mewn partneriaeth â grwpiau eraill gan gynnwys Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru, prosiect Dyffryn Gwyrdd a sied cyn-filwyr Bethesda.

Y gobaith yw y bydd y prosiect hwn yn cynnig gwell amgylchiadau i adar megis tylluanod, titŵod a'r robin goch ffynnu, ac yn darparu cynefin i'r wiwerod coch ar belaod y coed sydd wedi cael eu hailgyflwyno yn ddiweddar i'r ardal.

Fel y gŵyr darllenwyr Llais Ogwan mae nifer o grwpiau cymunedol yn defnyddio'r clwb rygbi er mwyn cynnal eu gweithgareddau. Amcan y clwb yw bod yn niwtral o ran ei ddefnydd o garbon. Bydd yr ail grant yn cyfrannu at hyn drwy alluogi'r clwb i osod synwyryddion golau i wneud yn siŵr na fydd goleuadau trydan yn cael eu gadael ynghyn pan na fydd y clwb yn cael ei ddefnyddio gan aelodau'r clwb a'r grwpiau cymunedol eraill.

Gobaith Elusen Ogwen yw y bydd y prosiectau hyn yn ysbrydoli grwpiau cymunedol eraill yn Nyffryn Ogwen i ymgeisio am grant gan Elusen Ogwen. 31ain Rhagfyr 2021 yw'r dyddiad cau nesaf ar gyfer cyflwyno ceisiadau. Ewch i wefan www.ogwen.cymru i gael rhagor o wybodaeth am y math o brosiectau y gallwn eu cefnogi ac i gael gafael ar y ffurflen gais a'r canllawiau ymgeisio. Mae croeso ichi gysylltu â ni am sgwrs cyn ymgeisio drwy anfon neges at elusenogwen@gmail.com.



# Talybont

**Neville Hughes**,
14 Pant, Bethesda
(600853)
**Barbara Jones**, 1 Dol Helyg, Talybont (353500)

**Colli Hefin**

Brawychwyd y Dyffryn ar ei hyd a'i led wrth glywed y newyddion trist bod Hefin Hughes, mab Jean, 'Bryn Awel', wedi'n gadael mor ddisymwth ar nos Iau, Hydref 21$^{ain}$.

Yn y Gerlan roedd Hefin yn byw, ond rhannai Gareth y Saer, ei frawd, ac yntau'r Gweithdy tu ôl i dŷ eu mam, ac yno y treuliai Hefin oriau wrth ei waith. Roedd yn Weldiwr penigamp, a deuai pobl o bob cwr o'r Dyffryn, ac ymhell y tu draw, i chwilio amdano. Roedd y Gweithdy yn debyg i'r hen Efail erstalwm, gyda'r gwreichion yn tasgu , sŵn y morthwyl yn taro ar ddur, a thwrw siarad afieithus a chwerthin, wrth i Hefin a'i ffrindiau roi'r byd yn ei le dros banad. Roedd Hefin yn drysorfa o wybodaeth leol a hanesion di-ri, a chanddo ddawn ddifyr a doniol wrth eu hadrodd. Dyn pobl oedd o; cafodd pawb ei drin yn yr un modd, ac roedd ganddo amser a gwên i bob un. Roedd ei swydd fel Bugail a Gwarchodwr yn mynd ag ef ymhell o Dalybont, ond gwaith eraill yw sôn am hynny. Ein braint ni oedd cael treulio aml i orig yn ei gwmni, a chael ein cyfrif yn ffrindiau iddo.

Mae'r golled ar ei aelwyd yn enfawr. Estynnwn gydymdeimlad dwysaf at Elaine, ei briod, a'r teulu oll yn eu hiraeth; at Jean, ei fam, a Gareth ei frawd a'i deulu yntau. Rydach chi yng nghanol dyddiau tywyll iawn ar hyn o bryd, Jean, ond bydd pobl Talybont yna i chi, pryd bynnag y byddwch ein hangen.
Coffa da am gymeriad hynaws ac arbennig iawn; diolch am gael dy adnabod, Hef !

**Cydymdeimlo**

Wrth i'r amser agosau inni anfon cyfraniadau ar gyfer rhifyn nesaf y 'Llais', clywsom am deulu arall o'r pentref mewn profedigaeth. Ar ddydd Sadwrn, Hydref y 23$^{ain}$, bu farw Meirion Wyn Roberts yn dawel yn ei gartref ym Mro Emrys. Cydymdeimlwn yn ddwys â Pat, ei weddw, ei fab a'i ferch, Callum a Cara, a'r teulu oll ar amser mor drist yn eu hanes.

**Ysbyty**

Treuliodd Mrs Rhiannon Williams, 15 Cae Gwigin, ychydig o amser yn yr ysbyty, cyn mynd i'r Felinheli at Sulwen, ei merch. Erbyn hyn, mae hi gartref ac yn cryfhau bob dydd. Brysiwch wella, Rhiannon, a chym'wch ofal yn ystod y tywydd oer.

**Damwain**

Cafodd Sheila Owen (Redfern), Millbank, godwm cas yn y gegin. Disgynnodd yn erbyn y sinc ac agor ei braich o'i phenelin at ei garddwrn. Mae'r briw yn gwella'n dda iawn, diolch byth, ond pwyll biau hi i bawb ohonom sydd wedi pasio oed yr addewid.

**Graddio**

Llongyfarchiadau i Cally Jones, 23 Cae Gwigin, a ennillodd ei gradd mewn nyrsio ar ddiwedd mis Awst. Yr ydym i gyd yn falch ohonot, Cally. Gwyddom dy fod wedi gweithio'n galed iawn hyd gydol y cwrs. Hwyl fawr iti ar dy waith fel 'Staff Nurse' ar Ward Tegid.

**Penblwydd Arbennig**

Llongyfarchiadau a dymuniadau gorau i William Roberts (Wil Ch'willan) ar ddathlu penblwydd arbennig ar Hydref 8$^{fed}$ . 'Fasa neb yn coelio pa rif sy'n dod o flaen yr 0 !
Mae Wil fel arian byw, yn gweithio ar y fferm o fore gwyn tan nos, ac wrth ei fodd yng nghwmni ei ddwy wyres fach, Enfys a Buddug. Clywsom sôn i chi wneud te penblwydd i Taid, gen'od. Dw i'n siwr 'fod o'n un da. Bendith arnat, Wil, a chadwa'n saff.

**Geni**

Unwaith eto, mae babi wedi cyrraedd yr ardal ers mis Awst, heb i neb roi gwybod i griw 'Llais Ogwan'! Eila Non yw ei henw tlws. Mae hi'n ferch i Geraint a Meinir 'Cae Mawr', Gatws, ac yn chwaer fach newydd i Eban, Efa ac Eos. 'Dw i'n siwr y bydd wrth ei bodd efo'i brawd mawr a'i chwiorydd. Maent i gyd yn ddigon o ryfeddod. Pob bendith arnoch fel teulu.

**Diolch Penblwydd**

Mae Rita Hughes, 7 Lôn Ddŵr, neu 'Anti Rita Post' i fwy nac un genhedlaeth o blant y pentref, yn dymuno diolch o waelod calon i'w theulu, ffrindiau a chymdogion am yr holl alwadau ffôn, cardiau, blodau, rhoddion ac anrhegion a dderbynniodd ar ei phenblwydd yn 80 oed yn ddiweddar.

Hoffai ddiolch i Nev ac Angharad, ac aelodau Capel Bethlehem, am forol am gacen i ddathlu'r achlysur. Yn anffodus, oherwydd cyfyngiadau Cofid, 'doedd dathlu yn y ffordd arferol ddim yn bosibl.

'Dw i'n methu dallt pam mae Rita yn synnu i gymaint o bobl gofio amdani. Mae hi'n gwneud ei gorau i bawb, ac yn mynd o'i ffordd i helpu, ble bynnag bo angen. I'r rhai ohonom sy'n cofio, diwrnod trist iawn yn hanes Talybont oedd hwnnw pan gaeoddd drws y Post am y tro olaf.

## Capel Bethlehem

**Oedfaon**

Dyma'r oedfaon a gynhelir bob Sul am 2 o'r gloch

21$^{ain}$ Tachwedd: Y Parchedig Dafydd Wyn Wiliam.
28$^{ain}$ Tachwedd: Y Gweinidog.
5$^{ed}$ Rhagfyr: Parchg. Gwenda Richards.
12$^{fed}$ Rhagfyr: Y Gweinidog.

Croeso cynnes i bawb.

**Colli Aelod**

Yn ystod yr oedfa a gynhaliwyd brynhawn Sul, 24$^{ain}$ Hydref, fe safodd y gynulleidfa ar eu traed mewn munud o dawelwch, fel arwydd o barch a chydymdeimlad tuag at Jean Hughes a'r teulu yn eu profedigaeth fawr o golli Hefin mor ddi-symwth. Gweddiwyd drostynt gan ein gweinidog, Y Parchedig John Pritchard




# C.L. JONES

Masnachwyr Coed a Nwyddau Adeiladu




Bethesda 01248 600045
Caernarfon 01286 676070
Llangefni 01248 751677

Cludiant am ddim yn lleol
Stoc helaeth ac amrywiol
Staff cyfeillgar a phroffesiynol
Popeth ar gyfer y diwydiant a D.I.Y

Mynytho 01758 730768
Llanrwst 01492 640794
Caergybi 01407 728728

Mae Arddangosfa Ceginau ac Ystafelloedd Ymolchi yn ein cangen yn Llangefni a Llanrwst

# Nyth y Gân

**GOLYGFA**

Ychydig ddŵr sy'n rhedeg
Bob dydd i lawr o'r cwm,
A'r haul sydd wedi crasu
Porfeydd y mynydd llwm.

Edrycha'r lle'n wahanol
Mewn lliwiau melyn, glân
A sypiau gwlân i'w gweled
Ar lwyni'r eithin mân.

Mewn blinder crwydra'r defaid
Gan chwilio'n daer am fwyd
Ac eraill gyda'u hepil
Yng nghysgod creigiau llwyd.

Nid dyma y tro cyntaf
I sychdwr daro'r cwm;
Byd natur sydd yn pennu
A fydd yn wyrdd neu'n llwm.



**GARDD Y GWANWYN**

Llawn yw hon o farddoniaeth, a denodd
Ni'n dynn at gerddonriaeth;
Â hi'n fyw fe roddodd faeth
Gan degwch genedigaeth.

**EMYN**

Y dôn hynod o'n hanes a genir
I gynnal y neges;
A'n tynnu ni ato'n nes
O ganol geiriau'n gynnes.

**Y WAWR**

O syllu drwy'r drws allan a gweled
Fod golau drwy'n goedlan,
Ar y llawr i'r mawr a'r mân,
Bywyd yr oriau buan.

**Y GERDD**

Yn gorwedd y bu'r geiriau, yn disgwyl
Am dasg i'w troi'n berlau;
Trwy eu rhwymo'n batrymau
Glân yw cerdd fel gleiniau'n cau.

Dafydd Morris

# Calendr Llais Ogwan 2022




Mae'n bleser gennym gyhoeddi bod Calendr Llais Ogwan 2022 wedi ei gyhoeddi ac ar gael i'w brynu yn y siopau a gan eich gwerthwyr lleol. Mae'r Calendr yn cynnwys lluniau lliw hardd o ardal Dyffryn Ogwen gan gyfranwyr lleol unwaith eto eleni.

Hoffem ddiolch eto eleni am gymorth gan Glwb Camera Dyffryn Ogwen i ddenu a dewis y lluniau ar gyfer y Calendr a diolchwn hefyd i Richard Alwyn Jones a Gwasg Ffrancon am eu gwaith wrth gysodi ac argraffu'r Calendr.

Bydd y Calendr yn cael ei werthu trwy'r siopau yn bennaf, ond, os oes rhywun yn fodlon gwerthu cyflenwad, mae croeso iddynt gysylltu gyda Mr Walter Williams gan mai ef sy'n gyfrifol am ddosbarthu a gwerthu'r Calendr.

Gallwch gysylltu gyda Walter ar 01248 601167 neu trwy e-bost: waltermenai@yahoo.co.uk.

Bydd y Calendr ar werth am £4 eto eleni yn y siopau canlynol:

- Siop Ogwen, Bethesda, a thrwy archeb gyda Cadwyn Ogwen
- Marchnad Ogwen
- Londis, Bethesda
- Barbwr Ogwen, Stryd Fawr, Bethesda
- Caffi Seren, Bethesda
- Post Rachub
- Llys Y Gwynt (Siop SPAR)
- Siop Palas Print, Caernarfon
- Awen Menai, Porthaethwy

# Llythyr

Annwyl Olygydd,
Mae'r Nadolig yn nesáu, ac i lawer o blant a phobl ifanc yng Nghymru, gall fod yn amser anodd o'r flwyddyn. Gall eich darllenwyr ein helpu i wneud gwahaniaeth i fywydau plant wrth ddod â rhywfaint o lawenydd Nadoligaidd i'w teuluoedd eu hunain.

Mae'r dyn ei hun, Siôn Corn, wedi agor ei weithdy ac yn gweithio gyda'r NSPCC i anfon llythyrau wedi'u personoli'r holl ffordd o Begwn y Gogledd i Gymru. Gall darllenwyr roi rhodd trwy greu Llythyr oddi wrth Siôn Corn, sydd yn cael ei argraffu a'i bostio'n syth i'r plentyn mewn amlen Nadoligaidd. Gallant ddewis o wyth dyluniad gwahanol, gan gynnwys "Nadolig Cyntaf Babi" a "Helpwyr Bychain Siôn Corn" ac ychwanegu gwybodaeth bersonol fel enw, oedran a diddordebau. Mae'r llythyrau ar gael yn Gymraeg a Saesneg.

Y cyfan a ofynnwn yw rodd a awgrymir o £5, a allai helpu Childline i fod yno i blant dros yr ŵyl a thu hwnt. Bydd ein gwirfoddolwyr Childline ym Mhrestatyn a Chaerdydd ymhlith y rhai sy'n gwirfoddoli eu hamser i wrando ar blant a phobl ifanc dros gyfnod y Nadolig. Gallai £8 ateb dwy alwad i Childline, unrhyw adeg o'r dydd a'r nos, hyd yn oed ar ddydd Nadolig. Gallai £12 ateb galwadau gan dri phlentyn a gallai £25 dalu tuag at hyfforddi cwnselwyr gwirfoddol Childline i fod yno i blant pan fydd ein hangen arnynt.

I greu llythyr personol i'ch teulu oddi wrth Siôn Corn, ewch i wefan NSPCC.

**Emma Brennan**
Rheolwr Gweithgareddau Codi Arian Cefnogwyr
**NSPCC Cymru**



# Ffair Llan

***Â Ffair Llan newydd fod ar y 29ain o Hydref, a nifer fawr o deuluoedd yr ardal wedi mwynhau'r achlysur, dyma beth o hanes y ffair ar ffurf atgofion. Yn wahanol i heddiw, prynu a gwerthu defaid a merlod mynydd oedd diben y ffair erstalwm, a daeth stondinau efo'u gemau amrywiol i ddifyrru'r plant a'r bobl ifanc. Wrth gwrs, mecanweithiau elfennol oedd yn gweithio'r gemau, yn wahanol iawn i gemau electronig y dyfeisiau modern sy'n mynd â bryd yr ifanc y dyddiau hyn, ond yr un oedd yr hwyl.***

***Cyhoeddwyd yr ysgrif ganlynol o eiddo Ernest Roberts yn Llais Ogwan yn y 1970au a'i chynnwys yn ei gyfrol Cerrig Mân (Gwasg Gee, 1979). Cyhoeddwyd y penillion yn y gyfrol Beth am Gân! : Caneuon Poblogaidd o Ddyffryn Ogwen (Cangen Dyffryn Ogwen o Fudiad Adfer, 1978.)***

'Wn i ddim un union faint ydy oed Ffair Llan a gynhelir yn flynyddol ond y mae beth bynnag dros ddau gant, ac ar un cyfnod yn ei hanes ceid ffair hefyd yn Nhal-y-bont, rhyw ddwy filltir i ffwrdd, ar Mai 7, Awst 11 a Hydref 1. Sefydlwyd ffeiriau hefyd ym Methesda gan y Cyngor Dinesig yn 1893, i'w chynnal ar Mai 2 a Medi 28, ac, os cofiaf yn iawn, cynhelid y rheini ar dir Garneddwen o gwmpas Adwy'r Nant. Mae'n debyg i Ffair Llan oroesi'r lleill oherwydd ei hamrywiol atyniadau i'r cyhoedd yn y pnawn a'r nos, ar ôl oedfa'r bore gyda'r defaid a'r merlod.

Mor fyw yw'r atgof am y bererindod flynyddol i Ffair Llan, gweld y golau melyn-goch yn yr awyr uwch ben Llan – y galon yn cyffroi a'r traed yn cyflymu tuag yno! Prynu *Ladies Teasers* – tiwb fel un pâst dannedd, ei wasgu a dŵr yn pistyllio i wynebau'r genod. Dwy wraig barchus a hwyliog yn rhoi trochfa i wegil Sam Ifans, y casglwr trethi, clamp o ddyn mawr boliog efo het galed a ffon! Yntau'n troi rownd fel tarw gwyllt ac yn sgytio fy ffrind, Idris Doctor, ar gam. Grawnwin pêr mewn casgen o flawd lli. Rhes uwch rhes o gnau-coco fel côr meibion ar rostrwm 'Steddfod. Cael tair pêl am geiniog i drio rhoi snogo i'w harweinydd sy'n edrych yn simsan ar ei ben ei hun mewn cwpan blawd lli yn y ffrynt. Pwl-a-we-bolus – pwyso tipyn ar gongl y bwrdd i drio tywys y farblan liwgar at y bonion praff, hithau'n treigo'n igam-ogam ar sprigyn tenau o Nymbar 8 neu i waelod y bwrdd. Lamp naptha yn diffodd ac yn chwythu fel neidr.



Ceffylau bach yn prancio a cheiliogod heglog yn mynd i fyny ac i lawr a rownd a rownd. Y dyn fu'n hel y pres yn sefyll yn tshiáp i gyd, sigarét yn ei geg, stwmp un arall yn ei glust, ei goesau ar led, ei ysgwyddau wedi eu taflu'n ôl i gadw ei gyd-bwysedd weddill ei siwrnai *in orbit*. Gweision ffermwyr o odre'r plwy a hogia'r chwarel am y gora'n trio taro cloch ar ben polyn tal. Owi Llangefni yn llewys ei grys yn ein hel yn ôl o gyrraedd chwifiadau'r morthwyl pren mawr, yn taflu llygad i fyny fel pe bai'n mesur y pellter i'r gloch, poeri yn ei ddwylo caled, taro'r botwm pres â holl nerth creigiwr, a'r bwled yn saethu fel roced i'r gofod ac yn taro'r gloch dair gwaith yn olynol. Beth oedd ennill cloc larwm ar fwrdd hwp-la o'i gymharu â chipio camp ddi-wobr y Samsoniaid ar stondin *Try your strength*. Oedi am sbel i wrando ar ffraethineb Huw Potia o Gaernarfon yn gwerthu llestri rhad.

'Wyt ti ishio prynu present i taid o Ffair Llan, cariad? Dyma fo i ti – cwpan fwstash.'

'Hei, Misus, beth am hwn efo bloda pinc … O wel, dyna chi, 'ta, arnach chi fydd y bai,

cofiwch, os cewch chi niwmonia wrth i ben draw'r ardd yn y nos! Hwn 'ta i'r gŵr – pot

siafio a llun Badan Pwal arno fo!'

Trannoeth y ffair, mamau'r ardal yn mynd drwy'r ddefod flynyddol o bacio a phostio tamaid o india roc o Ffair Llan i'r plant oedd ar wasgar – Harri yn y sowth, Nel yn gweini yn Lerpwl, Ifan a'i wraig yn Utica. Pob un ohonyn nhw'n meddwl am Ffair Llan ac yn cofio fel y byddent yn cyfri'r dyddiau tan Hydref 29:

'Dim ond heddiw tan yfory,
Dim ond 'fory tan y Ffair.'

* * *

**Ffair Llan**

Bûm eto eleni yn y ffair
Er cadw'n gyson at fy ngair,
Mae Ffair Llanllechid, ydyw'n siŵr,
Yn werth dod iddi dros y dŵr.

Daw'r bechgyn o bob cwr o'r plwy'
Er gwrdd â'r merched, meddent hwy,
Mae'n ddealledig drwy bob man
Bydd yr harddaf rai yn Ffair y Llan.

Bydd rhai yn clwed am ryw sôn
Fod hogia a genod hardd ym Môn,
Ni welodd neb rai'n Ffair Lla'chmedd
Mor hardd â'r rhain, mor deg eu gwedd.

Bydd miloedd yno 'mhell o'u co'
Bob blwyddyn hefo'u '*Beauty Show*,'
Ond biti wir na chawsant gip
Ar Ffair y Llan, mae'n werth y trip.

Daw defaid bach y bryniau ban
Ag uchaf bris yn Ffair y Llan,
'Does '*mutton chop*' i'w gael drwy'r byd
Mor dda ei flas fel hwn o hyd.

Dewch i'r ffair am India Roc,
Am rôt cewch ddigon rownd y cloc,
Hoff gan fy nghalon fynd i'r fro
Yn niwedd Hydref am ryw dro.

R. Edwards

* * *

**Ffair Llan**

Mae Ffair y Llan yn nesu
A hithau'n bwrw glaw,
Cewch weled merched ifanc
Yn stwnsio yn y baw.

Os ewch chwi dipyn pellach
Ac edrych ar y dde,
Cewch weled Siani Smala
Yn tynnu '*pull-away*'.

Anhysbys

('*pull-away*': math o gêm bagatél lle tynnid a gollyngid darn o fetal wrth spring i daro marblis metal a cheisio'u cael i fynd i mewn i dyllau er mwyn ennill india roc.)

* * *

**Ffair Llan**

Mae diwrnod Ffair Llan wedi dyfod,
Fel arfer mae'n tywallt y glaw,
Ba waeth gan y llanciau
Am felt a tharannau
Mae pawb yn eu hwyliau
Yng nghaol y baw.

Cytgan:
Ffair Llan, Ffair Llan,
Wel, andros o le sy'n Ffair Llan
Ffair Llan, Ffair Llan,
Wel, andros o le sy'n Ffair Llan.
Mae'r hogia â'u bwriad
I gyd am gael cariad
Yn ôl hen arferiad
Ym miri y Llan.

Cerbydau yn awr sy'n dylifo
O eithaf gornelau y dre,
Mae rhai o'r hen bobol
Yn synnu'n arswydol

## Tregarth

**Olwen Hills (Anti Olwen)**, 48 Bro Syr Ifor, Tregarth (600192)
**Angharad Williams**, 23 Ffordd Tanrhiw, Tregarth (601544)
**Gwenda Davies**, Llanfairpwll (gwendaglyn@hotmail.com)

**Cydymdeimlo**

Daeth profedigaeth i ran Kevin a Nia Hughes, Tyddyn Dicwm Bach, pan bu farw mam Kevin, yn Ceris Newydd, Bangor, ar Fedi 24$^{ain}$. Un yn wreiddiol o'r Felinheli. Cydymdeimlwn gyda chi i gyd fel teulu.

**Gair o Ddiolch**

Fe hoffai Gwenda, Iona, Dyfed a Siôn ddiolch am bob arwydd o gydymdeimlad yn ystod eu profedigaeth o golli Glyn. Diolch o galon i'w holl deulu, ffrindiau a chymdogion am eu haelioni a charedigrwydd yn ystod ei salwch hir ac wedi'i farwolaeth ar Fedi 22$^{ain}$. Diolch am bob ymweliad, cerdyn, llythyr a chyfraniad ariannol.

Diolch i'r Parch. Philip Barnett a'r Parch. Dafydd Coetmor Williams am arwain y gwasanaeth yn yr Amlosgfa ac i Wynn Williams, Tyddyn Dicwm, yr organydd.

Mae ein diolch fel teulu yn arbennig i Gareth Williams, Bethesda am ei waith trylwyr a sensetif yn trefnu'r angladd. Bydd y swm anrhydeddus iawn a gasglwyd er cof am Glyn yn cael ei rannu rhwng Hosbis Dewi Sant, Urdd Gobaith Cymru a Nyrsus Marie Currie. Roedd cefnogaeth y gofalwyr lleol, y nyrsus a'r meddygon lleol a nyrsus Marie Curie yn amhrisiadwy. Mawr yw ein diolch fel teulu.

Hoffai Helena a'r teulu, Pen y Bronnydd, Tregarth, ddiolch o galon i bawb am yr holl gardiau, caredigrwydd a phob arwydd o gydymdeimlad a ddangoswyd tuag atynt yn eu profedigaeth o golli ei gwr Hughie ym mis Awst. Diolch yn fawr iawn am y rhoddion tuag at Antur Fachwen.

**Gwellhad Buan**

Pob dymuniad da i Gerallt Williams, Ffordd Tanrhiw, wedi llawdiniaeth i gael penglin newydd yn Ysbyty Gwynedd fis Hydref.

Yr un ydyw'r dymuniadau i Tudor Jones, Coed Hywel, oedd yno yr un pryd yn derbyn dwy benglin newydd. Pob hwyl i'r ddau ohonoch.

**Capel Shiloh, Tregarth**

Cofiwch fod gwasanaethau yng Nghapel Shiloh bob nos Sul am 5 o'r gloch, oni nodir yn wahanol:
Tachwedd 21$^{ain}$ – Richard Gillion
Tachwedd 28$^{fed}$ – Eric Jones, Bangor
Rhagfyr 5$^{ed}$ – Richard Gillion
Rhagfyr 12$^{fed}$ – Dafydd Coetmor Williams, Llanllechid
Rhagfyr 19$^{eg}$ – Oedfa Deulu y Nadolig
Rhagfyr 24$^{ain}$ – Noswyl y Nadolig, Gwasanaeth Cymun am 6 o'r gloch
Rhagfyr 26$^{ain}$ – Richard Gillion

***Am Dro!***

Yn ystod Mis Hydref cawsom glywed dwywaith am bentrefi Tregarth a Bethesda ar y rhaglen *Am Dro*. Diolch i Carwyn Edwards, Tir Tegla a Bleddyn Williams, gynt o Ffordd Tanrhiw ac yn awr o Fethesda, am roi y ddau bentref ar y map.

Aeth Carwyn am dro gyda'i dri gwestai i fyny i Foelycí a gwelsom olygfeydd hyfryd o Ynys Môn, Bangor, a draw am y Gogarth yn Landudno.

Roedd taith Bleddyn a'i ffrindiau i Lyn Bochlwyd, nepell o Gwm Idwal, a braf oedd gweld y pedwar ffrind yn nofio yn y Llyn. Trefnodd y ddau bicnic blasus, a mawr oedd y canmol am y bwyd. Ardderchog!

**Cyfarchion**

Mae Brenda Wyn Jones, Cae Derwen, Tregarth yn dymuno Nadolig llawen a Blwyddyn Newydd Dda i'r teulu a ffrindiau.

**Merched y Wawr Cangen Tregarth**

Cyfarfu y gangen yng Nghapel Shiloh, Nos Lun, Hydref y 4$^{ydd}$, a chafwyd cwmni Sonia Williams yn son am steil a lliwiau oedd yn gweddu i'r aelodau. Diolchwyd i Sonia am ddod at y gangen unwaith eto wedi cyfnod reit hir o'i gweld.

Nos Lun, Tachwedd y 1$^{af}$, bydd noson gyda'r thema o 'Lechi Cymru dros y byd' dan ofal y Dr Dafydd Roberts, Cae'r Wern.

Croeso cynnes i chi ymaelodi yn y gangen.

Bydd y gangen yn dathlu'r Nadolig ar Ragfyr 6$^{ed}$. Am fwy o fanylion ynglyn â'r noson, cysyllter â Alison Carden ar 600946.

**Ymladdwr Tân yng Nghanada**

Ar raglen Aled Hughes ar Radio Cymru un bore ym Mis Hydref cawsom hanes Llŷr Temple Morris, gynt o Dregarth, yn siarad am ei waith fel Ymladdwr Tân yn British Northern Columbia yng Nghanada.

Yn ystod eleni mae tanau enfawr wedi bod yn llosgi ar hyd cannoedd o erwau o dir yng Nghanada ac mae Llŷr wedi bod yn brwydro waliau o dân sydd yn rhwygo drwy fforestydd, tiroedd amaethyddol a thros y mynyddoedd. Gweithio i'r *'Wild Fire Service'*, mae Llŷr, gwasanaeth sydd yn cael ei redeg gan Lywodraeth Canada.

Bu Llŷr yn ddisgybl yn Ysgol Tregarth ac yna ym mlynyddoedd 7,8 a 9 yn Ysgol Dyffryn Ogwen cyn i'r teulu ymfudo i Ganada.

Llongyfarchiadai mawr i ti am siarad am dy waith mor ardderchog. Cofion at dy rieni, Siân a Martin, a dy frawd Gwydion. Dwi'n siwr fod Nain Erw Las, Eirwen Owen, a dy holl deulu ym Methesda ac Ynys Môn yn falch iawn ohonot a'r gwaith peryglus rwyt yn ei wneud.

**Arddangos yn Oriel Môn**

Yn ystod mis Hydref mae dwy artist lleol wedi bod yn arddangos eu peintiadau yn Oriel Môn, sef Gilly Thomas a Louise Morgan. Mae gwaith y ddwy ohonynt yn wahanol iawn i'w gilydd ond roedd yr arddangosfa yn werth ei gweld. Yn anffodus dim ond tan Hydref 31$^{ain}$ yr oedd yr arddangosfa ymlaen yn yr Oriel. Mae gwaith y ddwy ohonynt i'w weld ar y we.

Mae gwaith Louise Morgan yn cael ei ddylanwadu gan farddoniaeth Gymraeg a Saesneg, ei hoffter mawr o dirwedd Eryri a rheini yn lliwgar a llawn dychymyg. Ar yr un llaw cawn waith mawr o ran maint o'r Grib Goch a mannau eraill fel Cwm Idwal a Castell y Gwynt, a Bro y Tylwyth Teg yn Eryri !

Mae Louise wedi bod yn byw yn ein mysg yn Hen Dyrpeg ond ar hyn o bryd yn cartrefu gyda'i Nain a'i Thaid yn Llanfairfechan.

Nodwch ei henw ac ewch i chwilio am ei gwaith.

Arbenigwr mewn lloriau coed caled
A.G.L. Lloriau
Arbenigwr mewn gosod a selio lloriau coed caled, adnewyddu lloriau gwreiddiol a chyweirio lloriau sydd wedi eu difrodi.
Andrew G. Lomozik B.A.
Ffôn: 01248 602117 Symudol: 07835487909

L. Sturrs
a'i feibion
sefydlwyd yn 1965
ADEILADWYR
Hen Iard Stesion,
Ffordd y Stesion, Bethesda
Ffôn: 600953
lsturrs@googlemail.com

BYSUS D. P. Owens RHIWLAS
01248 361044 a 07771 634195

BYSUS O 25 I 57 SEDD AR GAEL AR GYFER EICH HOLL ANGHENION TEITHIO - TRIPIAU, PRIODASAU, PARTÏON AC ATI.
Bysus Gwyrdd Rhiwlas
GWASANAETH LLEOL, TRADDODIADOL A DIBYNADWY
SEFYDLWYD 1997 PERCHENNOG: DERFEL OWENS

# CHWILAIR

## Prif Ddinasoedd Taleithiau'r UDA

| | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| A | A | W | F | H | R | I | **B** | **O** | **S** | **T** | **O** | **N** | E | J | L | C | M | B | V |
| S | B | H | X | J | U | I | S | V | S | H | E | I | M | G | V | H | M | D | W |
| A | H | P | A | T | L | A | N | T | A | U | Z | M | X | V | I | A | D | D | N |
| C | A | H | P | A | U | Q | U | S | O | B | F | R | P | N | Y | Q | Z | G | R |
| R | H | O | C | U | M | W | N | O | A | Y | R | I | D | A | S | Z | U | T | F |
| A | D | E | X | U | P | W | R | T | H | C | Q | I | H | W | E | H | O | Y | E |
| M | E | N | G | E | O | M | O | H | E | P | A | T | T | C | B | B | C | U | U |
| E | J | I | P | L | T | N | M | I | V | N | V | D | C | B | B | F | R | F | O |
| N | G | X | J | V | R | I | I | E | A | R | R | X | I | M | H | T | T | O | S |
| T | K | O | P | O | W | R | N | P | C | M | K | C | B | O | R | H | C | X | V |
| O | R | Y | U | H | S | N | O | T | M | R | E | F | Y | J | D | G | Z | H | B |
| C | W | G | O | S | E | L | C | R | A | I | X | N | I | L | X | I | J | J | M |
| B | E | W | T | Y | I | E | X | M | D | X | K | F | U | P | C | E | N | Q | Y |
| O | I | L | E | S | F | E | R | Z | Q | R | O | C | T | D | G | L | L | W | S |
| L | Z | H | E | B | E | A | J | K | J | C | L | N | L | R | V | A | O | O | G |
| J | C | M | P | W | T | A | L | L | A | H | A | S | S | E | E | R | C | P | G |
| S | O | E | W | J | J | Q | U | L | F | S | V | T | X | E | U | G | N | H | S |
| L | Z | L | E | A | F | X | I | W | T | Z | H | K | V | A | G | B | I | N | K |
| A | D | A | S | I | K | M | O | N | T | G | O | M | E | R | Y | O | L | G | D |
| H | B | S | S | I | U | R | O | X | A | G | X | R | A | E | E | K | K | D | A |

Yn y Chwilair mis yma mae enw deuddeg PRIF DDINAS TALEITHIAU UNOL DALEITHIAU'R AMERICA i'w ddarganfod, Mae un cliw wedi ei ddangos yn barod. A oes modd i chwi ddod o hyd i'r gweddill? (Mae LL, CH, DD, TH, acyb yn **un** llythyren yn y Gymraeg, ond i bwrpas y Chwilair dangosir hwynt fel dwy lythyren ar wahân).

Atebion gydag enw a chyfeiriad i André Lomozik, Zakopane, 7 Rhos y Coed, Bethesda, Bangor, Gwynedd LL57 3NW, erbyn TACHWEDD $25^{\text{AIN}}$ . Bydd gwobr o £10 i'r enw cyntaf allan o'r het. Os na fydd unrhyw un wedi canfod y deuddeg, yna'r rhif agosaf fydd yn cael y wobr. **Cofiwch nid oes angen anfon tudalen y chwilair o'r Llais i fewn i mi, bydd yr atebion ar ddarn o bapur neu cerdyn yn iawn.** Roedd nifer ohonoch wedi darganfod CATH ac APE, yn y chwilair, ond yn anffodus nid oedd rhain yn atebion roeddwn ei angen.

**Dyma atebion chwilair Hydref**: Arth; Blaidd; Carw; Cwningen; Dyfrgi; Eliffant; Llew; Llwynog; Llygoden; Mochyn Daear; Mwnci; Teigr.

**Dyma enwau'r rhai a gafodd yr atebion cywir:** Gwen Davies, Tanysgrafell Isaf, Bethesda; Rosemary Williams, Tregarth; Elizabeth Buckley, Tregarth; Selwyn Owen, Bethesda; Doris Shaw, Bangor; Gwenda Roberts, Rhosmeirch; Maureen Evans, Talybont; Barbara Anne Conlan, Bethesda; David T. Hughes, Cyffordd Llandudno; Siôn Freeman, Bethesda; Gwilym Edwin Williams, Kettering.
**Enillydd Hydref oedd:** Rosemary Williams, 19 Ffordd Tanrhiw, Tregarth, Bangor.

# Plaid Lafur Dyffryn Ogwen

Cynhaliwyd cyfarfod rhithiol o Bwyllgor Gwaith Plaid lafur Arfon ar ddechrau mis Hydref. Trafodwyd y ffiniau newydd ar gyfer wardiau Cyngor Gwynedd (gresyn bod tair ward dwy sedd wedi'u creu) a democratiaeth fewnol Plaid Lafur Cymru, yn ogystal ag adroddiadau gan swyddogion a changhennau.

Yn hwyrach yn y mis cynhaliwyd cyfarfod o Blaid Lafur Gogledd Cymru, yn bennaf i wrando ar areithiau gan Carolyn Thomas (aelod Senedd Cymru dros Ogledd Cymru) a Mark Tami (aelod San Steffan dros Alyn a Glannau Dyfrdwy), gyda digon o gyfle i ofyn cwestiynau a mynegi barn. Hefyd cafwyd adroddiad gan Andy Dunbobbin (Comisynydd yr Heddlu a Throseddau dros Ogledd Cymru) e.e. ei gynlluniau ar waith ac ei ymweliadau â gwahanol lefydd.

**Oes gennych chi ddiddordeb i hysbysebu yn Llais Ogwan?**

**Cysylltwch â Neville Hughes (Ffôn 600853)**

**nev_hughes @btinternet.com**

## Ysgol Bodfeurig


Taith gerdded o Dregarth i Fethesda ac yn ôl

**Sioe Mewn Cymeriad**
Fel rhan o thema 'Dŵr' dosbarth Ogwen, daeth Sioe Mewn Cymeriad i'r Ysgol i gyflwyno hanes boddi Cwm Tryweryn. Llwyddodd Megan Llŷn i ddod a'r hanes yn fyw gan roi cyfle i'r plant roi ei hunain yn esgidiau plant bach Capel Celyn ar y pryd. Profiad fydd yn siwr o aros gyda pawb. Diolch!

**Siarter Iaith**
Mae'r Siarter Iaith yn bwysig i ni yn yr ysgol. Mae annog pawb i ddysgu mwy am yr iaith, Cymru fel gwlad a'r Cymry yn ran allweddol o fywyd ysgol felly mis yma cawsom gyfle i ddathlu dau ddiwrnod pwysig sef diwrnod 'Sumai, Shwmai' a diwrnod T. Llew Jones. Braf oedd gweld pawb mor awyddus i ddysgu mwy am hanes Cymru a meddwl am eu rôl yn ei dyfodol.

**Gwersi Rygbi**
Mae plant blynyddoedd 2-6 wedi mwynhau dechrau gwersi rygbi gydag Osian o Ysgol Dyffryn Ogwen. Y tymor yma maent wedi bod yn brysur yn dysgu llawer o sgiliau amrywiol fydd yn eu helpu i chwarae mewn gemau rygbi. Mae pawb yn edrych ymlaen i barhau gyda'r gwersi yn ystod yr wythnosau nesaf.

**Wythnos Iechyd a Lles**
A dyna ni'r hanner tymor cyntaf drosodd a pa ffordd well i'w orffen na gyda wythnos gyfan o weithgareddau iechyd a lles. Yn ystod yr wythnos cafwyd taith gerdded o Dregarth i Fethesda, Ioga gyda Leisa Mererid, coginio pitsas a chreu salad ffrwythau cyn symyd i weithgareddau meddylfyd o dŵf a diogelwch ar y wê. Cafodd pawb wythnos arbennig gan ddysgu a mwynhau'n ofnadwy! Diolch o galon i Miss. Emily a'r Cyngor Iechyd a Lles am drefnu!

Diolch i'r Gymdeithas Rhieni ac Athrawon am drefnu cystadleuaeth cerfio pwmpen eto eleni. Gwelwyd llawer o gynlluniau o'r doniol i'r dychrynllyd! Diolch i'r plant am gystadlu ac i'r rhieni am eu helpu.

**Ffarwelio gyda Miss. Emily**
Roedd pawb yn drist iawn wrth i Miss. Emily ffarwelio gyda'r ysgol. Mae Miss. Emily wedi bod yn rhan allweddol o'r ysgol ers dros 6 mlynedd ac mae gan y plant, rhieni a'r staff feddwl y byd ohoni. Mae wedi bod yn ran pwysig iawn o gymuned yr ysgol ac rydym yn dymuno'r gorau iddi wrth iddi symyd ymlaen i weithio fel rhan o adran cynhwysiad yr adran addysg. Pob lwc Miss Emily a peidiwch a bod yn ddiarth!


Cystadleuaeth Pwmpenni

## Glasinfryn a Chaerhun

**Brysiwch Wella**
Nid yw David Williams, 4 Bro Infryn, wedi bod yn dda yn ddiweddar, dymuniadau gorau am wellhad buan. Yr un yw'r dymuniad at bawb arall yn yr ardal sydd heb fod yn rhy dda yn ddiweddar.

**Cynefin**
Yn rhifyn Medi o Cynefin ar S4C cafwyd rhaglen safonol ar Ddyffryn Ogwen gyda nifer o gyfweliadau gyda cymysgedd ddiddorol o gymeriadau lleol. Ymysg y cyfweliadau gyda Heledd Cynwal 'roedd un hefo Anna Griffith, Bryn Gwredog Isaf, Waen Wen yn sôn am ei gwaith cynllunio a dylunio carthenni a chlustogau gwlan gan arddangos nodau defaid ffermydd y Dyffryn, yn enwedig fferm ei hewythr Dafydd Jones, Fferm Coetmor, gan esbonio pwysigrwydd y nodau clust sydd wedi cael eu trosglwyddo o un cenhedlaeth i'r nesaf.

**Priodas**
Llongyfarchiadau i Sara Orwig, Bryn Gwredog Uchaf a Robert Palmer ar eu priodas ym mis Medi yng Nghaerdydd. Mae'r ddau wedi ymgartrefu ac yn gweithio yn y brifddinas. Dymuniadau gorau i'r ddau.

**Cartref Newydd**
Pob dymuniad da a hapusrwydd i Karen Hughes yn ei chartref newydd sef Glenfor, Waen Wen. Mae Karen yn gweithio fel Sister yn Ysbyty Gwynedd. Croeso cynnes iawn i chwi i'r ardal.

**Pontio**
Yn ddiweddar cafwyd y cyngerdd cyntaf ers mis Mawrth 2020 yn y Stiwdio yn Pontio, Bangor, gan Huw Vaughan Williams a'i Fand Jazz. Mae Huw, sydd nawr yn byw yn Llundain, yn fab i David a Carol Williams, Fferm Tyddyn Heilyn, Caerhun. Tra yn y Coleg Cerdd a Drama Frenhinol Cymru ennillodd Huw Gwobr Sgolor Jazz Yamaha yn 2012. Bâs Dwbwl yw offeryn Huw ac mae hefyd yn gyfansoddwr Jazz cyfoes. Da yw gweld llwyddiant pobl ifanc yr ardal.

**Llais Ogwan**
Braf iawn yw caf copi o'r Llais mewn print unwaith eto! Gyda diolch i'r tîm Golygyddol a Gweinyddol am eu gwaith clodwiw yn ystod y misoedd diwethaf yn dod a'r Llais i'n cartrefi dros y we.

## Ysgolion Pen-y-bryn ac Abercaseg, Bethesda

**Pwy fydd yma ymhen can mlynedd? Capsiwl Amser 2020-2021**

Bu pob disgybl ym Mhen-y-bryn yn brysur yn creu capsiwl amser personol i gofio'r amser gwahanol iawn yn eu bywydau yn ystod cyfnodau clo 2020 - 2021. Aeth pawb ati i lenwi eu bocs personol gyda phethau a oedd yn gysylltiedig â'r cyfnod ansicr yma. Rhoddwyd amrywiaeth o bethau megis llinell amser o brif ddigwyddiadau'r cyfnod, lluniau personol, atgofion, yn ogystal â rhifyn diweddar o Lais Ogwan er mwyn cofio digwyddiadau allweddol eu hardal leol. Diddorol fydd agor y bocs ymhen blynyddoedd a hel atgofion am yr amser a fu.

**Cadw Cymru'n Daclus**

Mwynhaodd Blwyddyn 3 a 4 sesiwn ddysgu rhithiol am Sbwriel a Gwastraff gan Gadw Cymru'n Daclus. Fel gwaith dilynol, gofynnwyd i'r disgyblion greu ffilm lai na 1 munud am bwysigrwydd ailgylchu, roedd y plant yn llawn brwdfrydedd, ac yn llawn syniadau unigryw. Edrychwn ymlaen at weld y gwaith gorffenedig gan ddosbarth Tryfan a Charnedd.

**Ymweliad PC Owain**

Braf oedd croesawu PC Owain yn ôl i'r ysgol y tymor yma. Dysgodd pawb ym Mhen-y-bryn sut i ddefnyddio'r we mewn ffordd gyfrifol a diogel. Cawsom neges bwerus iawn, sydd yn berthnasol i bob un ohonom.

Yn Abercaseg, trafodwyd mannau diogel i chwarae a mannau nad ydynt yn ddiogel. Roedd pawb wedi ymateb yn wych a sawl un wedi mynd yn syth adref i sôn gyda'u rhieni am y neges bwysig. Diolch PC Owain.

**Wythnos Meddwlgarwch**

Bûm yn gweithio ar dasgau amrywiol i godi ymwybyddiaeth o iechyd meddwl gydol yr wythnos, a gwisgodd y plant ddillad lliwgar ar y dydd Gwener fel uchafbwynt i'r holl weithgareddau. Cafodd y plant gyfleoedd i ymlacio a gwagio'r meddwl, cyfle i edrych ar hunanddelwedd, ymarfer sgiliau cyfathrebu a chyd-weithio er mwyd datrys problem a llawer mwy. Sgiliau pwysig er mwyn cael corff a meddwl iach.

**Llongyfarchiadau**

Llongyfarchiadau mawr i Miss. Lisa Jones athrawes dosbarth Carnedd Pen-y-bryn a'i phartner ar enedigaeth eu merch fach Nansi Grug. Mae pawb yn ysu i gael croesawu Nansi fach i'n plith yn y dyfodol agos. Newyddion hapus dros ben.

Llongyfarchiadau mawr hefyd i Miss. Williams athrawes dosbarth Ffrancon Abercaseg (sydd bellach yn Mrs. Taylor) ar ddathlu ei phriodas yn ddiweddar. Mae pawb yn yr ysgol yn dymuno pob hapusrwydd iddi hi a'i gŵr ar gychwyn eu bywyd priodasol gyda'i gilydd.

**Dymuniadau Gorau**

Pob lwc i Miss. Laura Millican ar ei swydd newydd yn Ysgol y Graig, Llangefni. Rydym fel ysgol yn dymuno diolch o galon iddi am ei holl waith caled a'i hymroddiad i blant y Dyffryn dros yr holl flynyddoedd. Yn wir, mae ei chyfraniad wedi bod yn amhrisiadwy ac heb os mae hi wedi bod yn gaffeiliad i Ysgol Pen-y-bryn. Diolch yn fawr Miss. Millican!

**Gair o ddiolch!**

Diolch i holl gymuned Ysgolion Pen-y-bryn ac Abercaseg am eich gwaith caled, eich brwdfrydedd a'ch cefnogaeth yn ystod hanner tymor (a hanner!) digon heriol unwaith eto!

**Garddio**

Mae disgyblion Blwyddyn a 2 ac ambell un ym mlwyddyn 6 wedi bod wrthi'n ddygn yn paratoi'r tir ar gyfer ein gerddi yn Abercaseg a Phen-y-bryn. Mae llu o blanhigion a llysiau yn barod i'w rhoi lawr ac rydym yn edrych ymlaen yn arw i weld ffrwyth eu llafur yn fuan. Yn wir, roedd ambell un wedi cael sglodion i de yn defnyddio'r tatws o'r ardd! Yn ôl Mali Efa roedd y sglodion yn "…flasus iawn".



**Disgo Calan Gaeaf**

I orffen yr hanner tymor cafwyd Disgo Calan Gaeaf yn neuadd yr ysgol dan ofal DJ Dawnus Mrs. Debbie Jones ym Mhen-y-bryn a chafwyd cystadlaethau dawnsio a gwisg ffansi yng ngofal yr athrawon yn Abercaseg. Roedd y plant yn werth eu gweld yn eu gwisgoedd brawychus, a braf oedd gweld y plant yn mwynhau eu diwrnod olaf cyn cau am wythnos o wyliau hynod o haeddiannol. Diolch yn fawr i'r holl rieni am fynd i fath drafferth, roedd pawb yn edrych yn 'frawychus' iawn!



# Rhiwlas

**Iona Jones**, 17 Bro Rhiwen, Rhiwlas
ionarhiwen@hotmail.co.uk (01248 355336)

**Cydymdeimlo**
Wedi salwch cymharol fyr, bu farw Mrs. Valmai Jones, Rhes Penrhyn, gweddw y ddiweddar Bob Jones. Cydymdeimlwn â'r meibion, Eilir a Rheon, ei chwaer Eunice a'r teulu oll.

Roedd Valmai yn berson o'i milltir sgwâr ac yn hapus yn ei chynefin. Cafodd ei magu yn Hafan Olau, yn ferch i Bet ac Emyr Williams. Dechreuodd ei gyrfa yn siop Wartskis ym Mangor. Wedi cyfnod ym Mhant, Caerhun, symudodd y teulu i Rhiwlas pan roedd Eilir yn ddim o beth. Tra'n Rhiwlas, ganed Rheon i'r ddau. Roedd yn driw a ffyddlon i'w theulu a'i ffrindiau. Yr oedd yr un mor ymroddedig i Gapel Ysgoldy yn ogystal ag i ninnau yng Nghapel Peniel ac yn sicr yn help gyda'r canu. Ei hoff emyn dôn oedd *Flemming,* gyda chyfeithiad o'r geiriau gan Thomas Lewis.

Roedd gan Valmai hefyd ddiddordeb brwd mewn hen benillion ac englynion, yn aml yng nghlwm i'r amlen pres i dalu am y *Daily Post,* fe fyddai wedi copïo cerdd neu bennill amserol. Cynhaliwyd yr angladd yn yr Amlosgfa, gyda'r Parch. Eric Jones yn gwasnaethu, a derbyniwyd rhoddion tuag at Uned Gofal Dwys Ysbyty Maelor, Wrecsam.

Yn yr un modd cydmdeimlwn â theulu Mrs. Elizabeth (Bet) Jones, 20 Bro Rhiwen a fu farw yn annisgwyl, ond thawel yn Ysbyty Gwynedd. Fe aeth i'r Ysbyty ar ddiwrnod ei phen-blwydd yn 95. Roedd yn wraig annwyl i'r diweddar Arthur Jones, mam a mam-yng-nghyfraith i Eric, Deiniol a Buddug; Arfon ac Eirlys, Margaret a Crawford yn ogystal a Nain a Hen Nain. Braf oedd eu gweld yn yr angladd.

Yn wreiddiol o Nefyn, wedi iddi briodi â Arthur yn 1952 fe ymgartrefodd y ddau ym Mro Rhiwen. Roedd ei modryb, Anti Jini, wedi priodi ag Owen Jones, brawd i fy Nain. Gyda'r ddau yn cadw Tŷ Capel Peniel, mae'n debyg yno y buodd Beth a Arthur gyfarfod.

Roedd yn wyliwr brwd o S4C ac yn mwynhau y rhaglenni , yn enwedig yr Eisteddfodau. Bu'r angladd ar lan y bedd gyda'r Parch. Elwyn Richards yn gwasanaethu. Derbyniwyd rhoddion tuag at Ambiwlans Awyr Cymru. Anfonwn ein cofion atoch fel teulu.

Yn Ysbyty Gwynedd bu farw Mr. Geraint Evans yn 70 mlwydd oed, yr ieuengaf o blant Mr. a Mrs. Evans, Tŷ'n Llidiart neu Mynydd Bach. Roedd yn briod â Betty a'r ddau wedi ymgartrefu yng Nghaeau Gleisiion.

Yn lys-dad caredig i Julie a Simon, ac yn daid i Sean ac Ela. Roedd Geraint yn adnabyddus ymhlith Ffermwyr Pen Llŷn trwy ei waith yn gwerthu nwyddau iddynt.

Dymunai'r teulu ddiolch i staff Uned Gofal Dwys, Ysbyty Gwynedd am eu gofal. Bu'r angladd yn yr Amlosgfa gyda'r Parch. Huw John Hughes yn gwasanaethu. Derbyniwyd rhoddion tuag at yr Uned Gofal Arbennig. Anfonwn ein cofion at Betty a'i theulu.

**Gair o Ddiolch**
Dymuna Rheon a'r teulu ddiolch i bawb am eu geiriau caredig ac am eu rhoddion tuag at Ysbyty Maelor, Wrecsam er cof am eu Mam, Mrs. Valmai Jones.

Dymuna Mair, Nesta a theulu'r ddiweddar Margaret Wyn Williams, Ael y Bryn, Rhiwen, ddiolch yn fawr iawn i aelodau o'r teulu, cyfeillion a chymdogion am bob arwydd o gydymdeimlad a dderbyniodd ganddynt yn eu profedigaeth o golli Chwaer a modryb annwyl. Diolch am yr holl gardiau, ymweliadau a galwadau ffôn, ac am yr rhoddion hael tuag at Feddygfa Llanberis. Diolch i'r Parchedig Ganon Idris Thomas am ei wasanaeth a'r lan bedd, ac i Tŷ'n Rhos, Seion am ddarparu'r lluniaeth a'i croeso. Hoffwn ddiolch i Meinir o Dylan Griffith, Trefnwyr Angladdau am ei threfniadau trylwyr a'i chefnogaeth yn ystod cyfnod anodd iawn. Diolch yn fawr iawn i chi gyd.

**Hogyn o Rhiwlas**
Rhai wythnosau yn ôl, roedd Owain Arthur yn westai i Elin Fflur ar y rhaglen, *Sgwrs Dan y Lloer,* lle bu'n trafod hanes ei yrfa diddorol. Fel y dywedwyd wrtho, roedd wedi mynd o Rownd a Rownd i *Lord of the Rings* ac wedi bod yn ffilmio yn Seland Newydd. Roedd yn dweud o hyd pan oedd yn sôn am yr actorion enwog a fu'n cydweithio a hwy: "Hogyn o Rhiwlas ydw i wedi bod yn chwarae yn Graig a'r Parc, Be ydw i'n wneud yn y fan yma?"

Roedd yn canmol y profiadau a gafodd yn Ysgol Glanaethwy ac ar Rownd a Rownd lle bu am naw mlynedd.

Fe aeth i Goleg *Guild Hall* ac ennill gwobr y Fedal Aur ar ddiwedd ei drydedd flwyddyn. Cafodd ganmoliaeth pan ddilynodd James Corden i actio, *'One Man, 2 Governors'.* Esboniodd sut fod y rhan yma wedi bod yn gam pwysig iddo yn ei yrfa, a'i fod wrth ei fodd pan ddaeth y cyflwyniad i Llandudno. Bu mewn cyfresi Saesneg a Chymraeg. Fe eglurodd sut y bu mewn parti yn nhŷ Mick Jagger ac eto'n dweud wrth ei hun. "Hogyn o Rhiwlas yng nghanol parti y *Rolling Stones*".

Roedd ei stori ar y Rhaglen yn ddifyr a roedd yr hogyn o Rhiwlas yn hoffus ac yn ddiymhongar iawn. Pob lwc i ti yn y dyfodol.


## Ceisiadau am Nawdd Ariannol
## Hysbysiad Pwysig

Mae
**Cyngor Cymuned Llandygai**
yn gwahodd
ceisiadau am nawdd ariannol gan Gymdeithasau/Mudiadau lleol

Cysylltwch am ffurflen gais a bydd angen ei ddychwelyd erbyn
**31 Rhagfyr 2021**

Clerc a Phrif Swyddog Ariannol:
Bethan Roberts,
Cyngor Cymuned Llandygai,
26 Stryd Fawr,
Bethesda, LL57 3AE
01248 602131
E bost: cyngorllandygai@ogwen.org

## Ceisiadau am Nawdd Ariannol
## Hysbysiad Pwysig

Mae
**Cyngor Cymuned Bethesda**
yn gwahodd
ceisiadau am nawdd ariannol gan Gymdeithasau/Mudiadau lleol

Os ydych am wneud cais anfonwch eich Mantolen Ariannol ddiweddaraf ynghŷd â manylion eich banc at y Clerc erbyn **31 Rhagfyr 2021**

Clerc a Phrif Swyddog Ariannol:
Donna Watts,
Cyngor Cymuned Bethesda,
26 Stryd Fawr,
Bethesda, LL57 3AE
01248 602131
E bost: cyngorbethesda@ogwen.org


## Ceisiadau am Nawdd Ariannol
## Hysbysiad Pwysig

Mae
**Cyngor Cymuned Llanllechid**
yn gwahodd
ceisiadau am nawdd ariannol gan Gymdeithasau/Mudiadau lleol.

Os ydych am wneud cais anfonwch eich Mantolen Ariannol ddiweddaraf ynghŷd â manylion eich banc at y Clerc cyn **31 Rhagfyr 2021**

Clerc a Phrif Swyddog Ariannol:
Bethan Roberts,
Cyngor Cymuned Llanllechid,
26 Stryd Fawr,
Bethesda, LL57 3AE
01248 602131
E bost: cyngorllanllechid@ogwen.org

# CROESAIR



**AR DRAWS**

1 Pe bai yn Rhufeiniwr bach byddai gan Richard bum cant ac un a chant arall (3)
3 Cyn bo hir byddai'n rhaid mynd yn ôl i gael dilledyn amdano (3)
5 O'i gael yn yr wythfed mis mae'r ateb yn fyr a sydyn (4)
8 Mae rhos iddo yn bentref ger yr Wyddgrug (5)
9 Yn ofalus mewn potia ar gyfer gwneud popeth yn barod (7)
10 Rhoi un yn y pentref o Fôn fyddai'n ei symud yma o orllewin yr ynys (7)
12 Un bach gwlanog o egni y fam (5)
13 Ciwb gemau bwrdd (3)
15 Nid heno na neithiwr (5)
17 Brwydr (3)
19 Manteisio drwy 'achub ar y -----' (5)
20 Gwneud yn ddiymadferth (7)
23 Pentref yr eglwys a'r ffynnon yn Eifionydd (7)
24 Rheinws (5)
25 Deg yr Aifft (4)
26 Tywyllu (3)
27 H2O Huw Jones y canwr ! (3)

**I LAWR**

1 Doed dŵr i'w buro rhag yr arogl drwg (7)
2 Ni yn ein gwlad ein hunain (5)
3 Mynd i fart y ffermwyr i ganol llu mawr ohonynt (5)
4 Llestr sy'n dlws weithiau (5)
5 Burum (7)
6 Yr 'ansuddadwy' long enwocaf (7)
7 Rhaid ei godi yn fuan o'i wely rhag y cyflwr yma (4)
11 Yn rhydd o'r Covid a'r ffliw efallai (3)
14 Mae afon ynghanol haul Sbaen yn gymeradwy a chywir (7)
15 Copïo a dynwared (7)
16 Clawdd hiraf Cymru (3)
18 Weithiau fel bws neu dŷ (7)
19 Y llac yn y bol heb gamdreuliad (4)
20 Gŵr neu wraig (5)
21 I daro ar y donfedd gywir (5)
22 Hela i ddal (5)

**Enw:** ........................................

**Cyfeiriad:** ........................................

**ATEBION CROESAIR HYDREF 2021**

**AR DRAWS** 1 Llanc, 5 Llipa, 7 Arwisgo, 8 Opsiynau, 10 Raffl, 12 Pinc, 14 Ystyfnig, 16 Torheulo, 17 Ladi, 18 Cledd, 19 Aberafan, 22 Ymffrost, 23 Tair, 24 Olew

**I LAWR** 1 Llifo, 2 Cadi/Cati, 3 Gwyntyllu, 4 Esau, 5 Llong Ryfel, 6 Awel, 9 Prifodl, 11 Ffrind Da, 13 Cyhuddwyr, 15 Tro Pedol, 18 Clwt, 19 Aifft, 20 Alto, 21 Nacw

Cliw 1 I Lawr oedd y camgymeriad mwyaf y tro hwn. Cafwyd 8 ohonoch yn cynnig y gair 'lliwo' yn lle'r ateb cywir 'llifo' (llifo dillad).

Roedd 'Nacw' (21 I Lawr) cân adnabyddus Bob Roberts, Tai'r Felin yn ddiarth i 4 ohonoch a roddodd yr ateb 'Nanw'. Llithriad un arall oedd cynnig 'llyma' yn lle'r ateb cywir 'llipa' (5 Ar Draws).

Dyma enwau'r rhai anfonodd atebion hollol gywir: David T. Hughes, Cyffordd Llandudno; Rosemary Williams, Gareth Oliver, Tregarth; Iona Williams, Llanddulas; Lowri Evans, Llanllechid; Gwyneth Jones, Glasinfryn; Jean Vaughan Jones, Rhiwlas; Dilys Wyn Griffith, Abergele.
Mae'r wobr y tro yma i'r enw cyntaf o'r het, sef Lowri Evans, Mignant, Llanllechid, Bangor, Gwynedd LL57 3YF

Atebion erbyn 3ydd Rhagfyr, 2021 fan bellaf i 'Croesair Tachwedd', Bron Eryri, 12 Garneddwen, Bethesda, Gwynedd LL57 3PD

